

## **Memorandwm Esboniadol i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**  
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**  
23 Tachwedd 2021

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 (“y Rheolau hyn”) yn nodi'r rheolau ymddygiad ar gyfer ethol cynghorwyr i gynghorau cymuned a/neu dref yng Nghymru.

Drwy bob rhan o'r Memorandwm Esboniadol hwn, defnyddir rhai termau generig er mwyn bod yn gryno:

- Prif ardal – yn cyfeirio at sir a / neu fwrdeistref sirol
- Prif gyngor – yn cyfeirio at gyngor sir a / neu gyngor bwrdeistref sirol
- Cyngor cymuned – yn cyfeirio at gyngor cymuned a/neu gyngor tref.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Mae'r Rheolau hyn yn gwneud rhai darpariaethau newydd penodol ac yn diweddarau, yn cydgrynhoi ac yn ailddatgan y gyfraith ynglŷn ag etholiadau cynghorau cymuned a'r rheolau ar gyfer eu cynnal. Maent yn deillio'n bennaf o Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 (“Rheolau 2006”) a oedd yn gymwys i etholiadau cynghorau plwyf, cymuned a thref yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu, er bod Rheolau 2006 yn gwneud darpariaethau ar gyfer Cymru, yn sgil cyhoeddi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, nid yw rhannau helaeth o Reolau 2006 yn berthnasol i Gymru mwyach. Mae'r Rheolau hyn yn gwneud darpariaethau newydd ynglŷn â gweithdrefnau etholiadol penodol ac, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, byddant yn cydgrynhoi ac yn ailddatgan y gyfraith bresennol; diweddarau'r gyfraith lle y bo'n briodol i'w gwneud yn fwy dealladwy, yn enwedig drwy ddefnyddio iaith gliriach a byddant yn benodol i Gymru.

Hefyd, bydd y Rheolau hyn yn cael eu gwneud yn ddwyieithog am y tro cyntaf.

### **3. Cefndir deddfwriaethol**

Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud y Rheolau hyn o dan adran 36A(1), (3)-(6) a (9) a 187(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac adran 89(6) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae adran 36A(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn pennu bod yn rhaid i etholiadau ar gyfer cynghorwyr dros ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru gael eu cynnal yn unol â'r rheolau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae adran 36A(3) yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r rheolau hyn ei wneud, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gynnal pleidlais pan ymleddir yr etholiad a phennu'r gofynion i fod yn ymgeisydd mewn etholiad ac ati.

Mae adrannau 36A(4) – (6) yn nodi darpariaethau pellach ynglŷn â'r hyn y gall y rheolau ei wneud a sut mae'r rheolau hyn yn rhyngweithio â deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn cynnwys rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu arbed wrth weithredu'r rheolau hyn yn llawn.

Mae adran 36A(9) yn nodi'r weithdrefn y dylid ei defnyddio i wneud y rheolau hyn. Hynny yw, caiff y rheolau hyn eu gwneud drwy offeryn statudol a byddant yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol.

Cyflwynir y Rheolau hyn i'w gosod gerbron Senedd Cymru o dan adran 36A(10) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac maent i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Senedd Cymru.

Mae adran 187(1) o'r Ddeddf yn pennu bod darpariaethau penodol o'r Ddeddf yn gymwys i gynghorau cymuned sy'n ddarostyngedig i unrhyw addasiadau, newidiadau ac eithriadau y gall y rheolau eu gwneud o dan adran 36A.

Mae adran 89(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn pennu bod yn rhaid i sedd sy'n digwydd dod yn wag ymhlith cynghorwyr cymuned gael ei llenwi drwy etholiad neu gan y cyngor cymuned yn unol â rheolau a wneir o dan adran 36A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Yn unol ag adran 36A(7) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, cyn gwneud y Rheolau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oeddent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Effaith fwriadedig y Rheolau hyn yw nodi'r rheolau ymddygiad ar gyfer ethol cynghorwyr i gynghorau cymuned neu dref ("cynghorau cymuned") yng Nghymru. Mae'r Rheolau hyn yn benodol i Gymru a'u nod yw llunio set o reolau ymddygiad sydd wedi'u diweddarau ac wedi'u moderneiddio. Maent hefyd yn darparu ar gyfer polisïau a wneir fel rhan o'r broses o ddatblygu a chyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'w rhoi ar waith. Ymgynghorwyd ar y newidiadau hyn mewn polisi fel rhan o'r ymgynghoriad *Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru* a gynhaliwyd yn 2017. Mae'r polisïau a gyflwynir yn y Rheolau hyn yn ymwneud â'r dewis i gyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd, y datganiad o gysylltiad â phlaid a'r newidiadau angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth ar ôl estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor sy'n gymwys.

Ceir dolen i'r ymgynghoriad yma: [Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

I roi effaith lawn i'r Rheolau hyn a Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pwerau o dan adran 36A o Ddeddf 1983 ymhellach i wneud unrhyw ddarpariaeth atodol a chanlyniadol a all fod yn angenrheidiol drwy gyfrwng offeryn statudol ar wahân. Bydd darpariaeth o'r fath yn gymwys, yn yr un ffordd â'r Rheolau hyn, i etholiadau cynghorwyr i gynghorau cymuned yng Nghymru a gynhelir ar 5 Mai 2022 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae Rheol 1 i 7 o'r Rheolau hyn yn nodi'r sail ddeddfwriaethol dros wneud y Rheolau a'u diben, h.y. darparu ar gyfer ethol cynghorwyr i gyngor cymuned. Mae'r rheolau hyn hefyd yn nodi bod dwy Atodlen sy'n manylu ar y rheolau ymddygiad. Mae Atodlen 1 yn nodi'r rheolau sy'n gymwys i gynnal etholiad cyngor cymuned pan na chynhelir y bleidlais ar y cyd â'r bleidlais mewn etholiad arall. Mae Atodlen 2 yn nodi'r rheolau sy'n gymwys i gynnal etholiad cyngor cymuned pan gynhelir y bleidlais yn yr etholiad hwnnw ar y cyd â'r bleidlais mewn etholiad perthnasol arall.

Mae Rheol 5 o'r Rheolau hyn yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn wrth lenwi sedd sy'n digwydd dod yn wag. Mae'r Rheol yn gymwys pan gyhoeddir hysbysiad cyhoeddus o sedd sy'n digwydd dod yn wag cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddi ddod yn wag. Cyn pen 14 diwrnod (yn dechrau ar y diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus) gellir gwneud cais am etholiad i lenwi'r sedd wag. Mae'n rhaid i'r cais hwn gael ei wneud gan 10 etholwr (ar ddiwrnod y cais, rhywun sydd ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal etholiadol dan sylw, cyhyd â'i fod wedi cyrraedd oedran pleidleisio erbyn y diwrnod hwnnw ac nad oes ganddo gofnod dienw) i briod swyddfa'r prif gyngor, lle mae'r gymuned wedi'i lleoli. Mae Rheol 5 yn nodi'n glir fod yn rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan y 10 etholwr.

Yn achos cais o'r fath, mae'n rhaid i etholiad gael ei gynnal oni bai bod y sedd yn dod yn wag yn ystod chwe mis olaf tymor y cyngor h.y. chwe mis cyn yr etholiadau cyffredin. O dan yr amgylchiadau hyn, gall cyngor cymuned gyfethol person i lenwi'r sedd wag.

Os nad yw'n ofynnol cynnal etholiad, gall y cyngor cymuned gyfethol person i lenwi'r sedd wag os daeth y sedd yn wag yn ystod chwe mis olaf y cynghorydd neu fel arall, rhaid i'r cyngor cymuned gyfethol person i lenwi'r sedd wag.

Os na chaiff y sedd ei llenwi drwy gynnal etholiad neu gyfethol person, mae'n rhaid iddi gael ei llenwi yn yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer ethol cynghorwyr i'r cyngor cymuned.

### **Atodlen 1 – Rheolau ar gyfer cynnal etholiad cyngor cymuned pan na chynhelir y bleidlais ar y cyd â'r bleidlais mewn etholiad arall**

#### **Rhan 1: Darpariaeth o ran amser**

Mae'r Rhan hon o'r Rheolau hyn yn nodi'r amserlen ofynnol ar gyfer rhai gweithgareddau penodedig sy'n cael eu cynnal cyn y diwrnod pleidleisio ac ar y diwrnod pleidleisio. Mae hyn yn cynnwys pennu terfynau amser ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, dosbarthu papurau enwebu, dosbarthu hysbysiad tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl, cyhoeddi datganiad ynglŷn â'r person a enwebwyd, hysbysiad etholiad nas ymleddir, hysbysiad o bleidlais mewn etholiad a ymleddir a'r diwrnod pleidleisio.

## Rhan 2: Hysbysiad etholiad, enwebu a'r dull ethol

### *Hysbysiad etholiad*

Mae Rhan 2 yn nodi'r rheolau ynglŷn â'r hysbysiad etholiad a'r hyn y dylai'r hysbysiad hwnnw ei gynnwys. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion canlyniadau gynnwys manylion penodol fel rhan o'r hysbysiad ynglŷn â dyddiad ac amser y bleidlais a ble a sut i gael a chyflwyno'r mathau priodol o bapurau enwebu.

Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion canlyniadau gynnwys manylion yn yr hysbysiad ynglŷn â sut y gellir cael a chyflwyno papurau enwebu ar-lein neu'n electronig. Mae'r gallu i gael gafael ar bapurau enwebu a'u cyflwyno ar-lein yn ddarpariaeth newydd sy'n adlewyrchu arferion modern ac yn galluogi swyddogion canlyniadau i gefnogi ymgeiswyr drwy sicrhau proses mor hygyrch â phosibl wrth iddynt sefyll etholiad. Gall ymgeiswyr ddewis cael a chyflwyno papurau enwebu yn bersonol o hyd.

### *Enwebu ymgeiswyr*

Mae'r Rhan hon hefyd yn nodi'r rheolau ynglŷn ag enwebu ymgeiswyr. Mae'n rhaid i swyddogion canlyniadau roi papurau enwebu i ymgeiswyr ac mae'n rhaid iddynt, ar gais, baratoi papur enwebu i'w lofnodi. Mae'n rhaid i swyddogion canlyniadau hefyd sicrhau y gellir cael a chyflwyno papurau enwebu ar-lein neu'n electronig (yn unol â'r wybodaeth a roddwyd yn yr hysbysiad etholiad). Bydd ymgeisydd wedi'i enwebu'n swyddogol pan fydd wedi cyflwyno'r papur enwebu wedi'i gwblhau i ymgeiswyr a nodir yn y ffurflen yn Atodiad 1 i'r Rheolau a nodir yn y ddogfen hon, neu gwblhau ffurflen sy'n debyg i'r ffurflen a nodir yn y Rheolau hyn. Mae'n rhaid bod yr ymgeisydd wedi llofnodi'r ffurflen enwebu ym mhresenoldeb tyst, y mae'n rhaid iddo ardystio'r llofnod.

Mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r swyddog canlyniadau yn unol â'r hysbysiad etholiad. Mae'r Rhan hon hefyd yn nodi'r wybodaeth ofynnol ar bapur enwebu a'r rheolau penodol ynglŷn â'r wybodaeth honno. Mae hefyd yn nodi'r rheolau ynglŷn â'r disgrifiadau y gall ymgeisydd eu defnyddio ar bapurau enwebu, os bydd yn dewis cynnwys un, ac yna ar y papur pleidleisio. Mae hyn yn ymwneud â disgrifiadau gwleidyddol ac mae'n caniatáu'r defnydd o ddisgrifiadau sy'n debygol o beri i etholwyr gysylltu'r ymgeisydd â phlaid wleidyddol gofrestredig, neu â dwy blaid wleidyddol gofrestredig. Fel arall, mae'n caniatáu i ymgeiswyr nodi mai ymgeisydd "annibynnol" ydyw. Gall ymgeiswyr ddefnyddio disgrifiadau Cymraeg a Saesneg ar eu ffurflenni enwebu.

Mae'r Rhan hon hefyd yn caniatáu i'r geiriau "Cymru", "Cymreig", "Wales" neu "Welsh", gael eu rhoi o flaen neu ar ôl enw plaid wleidyddol neu ddisgrifydd. Hynny yw, caiff ymgeiswyr ddefnyddio'r term "Cymru" neu "Cymreig" cyn y disgrifiad o'u plaid neu eu pleidiau, neu "Wales" neu "Welsh" yn Saesneg.

Mae gofyniad y bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddatgan ar eu papurau enwebu os ydynt yn aelodau, neu wedi bod yn aelodau, o blaid wleidyddol gofrestredig yn ystod y 12 mis diwethaf, ond nad yw'n blaid y maent yn ceisio sefyll ar ei rhan yn yr etholiad dan sylw. Y "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben

ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad etholiad. Mae hon yn ddarpariaeth newydd sydd â'r nod o gefnogi gwell gwybodaeth i bleidleiswyr a bydd yn ofynnol i ymgeiswyr o'r fath ddatgan unrhyw aelodaeth o'r fath ar unrhyw adeg yn y 12 mis blaenorol, a manylion y blaid honno neu'r pleidiau hynny. Os na fydd ymgeisydd yn darparu'r wybodaeth hon yn fwriadol, bydd yn euog o arfer lwgr.

Fel rhan o'r broses enwebu, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau ffurflen cyfeiriad cartref. Mae'r Rheolau hyn yn darparu y dylai'r manylion gael eu cynnwys ar y ffurflen honno. Bydd y cyfeiriad a ddarperir gan yr ymgeisydd yn seiliedig ar ei gymhwysedd i sefyll etholiad yn y gymuned. Gall person fod yn gymwys i sefyll etholiad ar gyfer y cyngor cymuned dan sylw mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- bod y person yn etholwr wedi'i gofrestru at ddibenion llywodraeth leol mewn cyfeiriad yn yr ardal honno o'r cyngor gymuned;
- os yw'r person yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn ardal y cyngor cymuned yn ystod y cyfnod perthnasol cyfan;
- os yw prif weithle neu unig weithle person, yn ystod y cyfnod perthnasol, yn ardal y cyngor cymuned; neu
- os yw'r person wedi bod yn preswyllo, yn ystod y cyfnod perthnasol, yn y gymuned neu o fewn tair milltir iddi.

Bydd y "cyfeiriad cartref" a ddarperir ar y ffurflen hon (a all fod yn un neu fwy o'r opsiynau uchod) yn adlewyrchu cymhwysedd yr ymgeisydd i sefyll etholiad ar gyfer y cyngor cymuned.

Er y bydd yn ofynnol cwblhau ffurflen cyfeiriad cartref fel rhan o'r broses enwebu, gall ymgeiswyr nodi nad ydynt am i'w cyfeiriad cartref fod yn gyhoeddus na chael ei gyhoeddi ar y papurau pleidleisio. Os bydd ymgeiswyr yn dymuno felly, bydd yn rhaid iddynt nodi ardal gartref berthnasol yn lle hynny. Yr ardal gartref berthnasol fydd ardal llywodraeth leol gartref yr ymgeisydd, neu wlad yn ôl y digwydd. Polisi newydd yw hwn, ac mae'n sicrhau bod etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn gyson ag etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau eraill ledled y Deyrnas Unedig. Y swyddog canlyniadau sy'n gyfrifol am sicrhau bod dymuniad yr ymgeisydd yn cael ei fodloni pan fo ymgeisydd wedi nodi na ddylid cyhoeddi'r cyfeiriad cartref.

Mae Rheolau 10 a 11 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd swyddog canlyniadau yn penderfynu ar ddilysrwydd y papur enwebu, gan amlinellu'r amgylchiadau pan na fydd enwebiad ymgeisydd wedi cael ei gadarnhau, a hefyd nodi'n glir, os bydd ymgeisydd wedi'i enwebu mewn mwy nag un ardal etholiadol, fod yn rhaid iddo dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl o bob un o'r ardaloedd hynny ond un erbyn y terfyn amser ar gyfer tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl. Mae'r Rheolau'n nodi'n glir mai dim ond mewn un ardal etholiadol y caiff ymgeisydd sefyll etholiad. Mae Rheol 12 yn nodi sut y caiff ymgeisydd dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl drwy hysbysu'r swyddog canlyniadau.

Unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer enwebu wedi mynd heibio, mae rheol 13 yn pennu bod yn rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi datganiad am y sawl a enwebwyd. Rhaid i'r datganiad hwn am y personau a enwebwyd gynnwys yr wybodaeth briodol am bob un y mae ei enwebiad fel ymgeisydd wedi cael ei gadarnhau ynghyd â gwybodaeth am y rhai a enwebwyd ond nad yw eu

henwebiad wedi'i gadarnhau mwyach a'r rheswm dros hynny.

Os yw person wedi cael ei enwebu ac yn parhau'n ymgeisydd, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi enwau'r person hwnnw a'r disgrifiad ohono (os oes un) a roddwyd ar ei bapur enwebu, gwybodaeth am gyfeiriad cartref a'r wybodaeth yn ei ddatganiad ynglŷn ag aelodau o blaid wleidyddol. Os yw ymgeisydd wedi dewis peidio â chyhoeddi ei gyfeiriad cartref (drwy nodi hyn ar ei ffurflen cyfeiriad cartref) ni chaiff y swyddog canlyniadau gyhoeddi'r cyfeiriad cartref fel rhan o'r datganiad am y sawl a enwebwyd, ond bydd yn cynnwys yr ardal gartref berthnasol fel y'i nodwyd gan yr ymgeisydd. Dylai'r datganiad am y sawl a enwebwyd fod yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw ac mae'n rhaid iddo ddangos enwau cyntaf a chyfenwau'r ymgeisydd a ddefnyddir yn gyffredin oni bai bod y swyddog canlyniadau o'r farn bod yr enwau hynny yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr neu oni bai eu bod yn cael eu hystyried yn anwedus neu'n dramgwyddus.

Pan fo dau ymgeisydd neu fwy yn rhannu enw tebyg iawn neu'r un enw, eu bod wedi nodi na ddylai eu cyfeiriadau cartref gael eu cyhoeddi a'u bod yn preswyllo yn yr un ardal gartref, mae rheol 15 yn darparu y gall y swyddog canlyniadau wneud newidiadau neu ychwanegiadau a fydd yn helpu pleidleiswyr i wahaniaeth rhwng y ddau ymgeisydd. Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan y Comisiwn Etholiadol wrth wneud y newidiadau neu'r ychwanegiadau hyn. Pan fo'n ymarferol gwneud hynny, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd ymgynghori â'r bobl y mae'n newid eu gwybodaeth neu'n ychwanegu ati.

Caniateir i'r swyddog canlyniadau gywiro unrhyw fân wallau a welir ar y papur enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref cyhyd â bod hyn yn cael ei wneud cyn i'r datganiad am y sawl a enwebwyd gael ei gyhoeddi. Mae Rheol 16 yn nodi'r math o wallau y gellir eu cywiro.

Mae Rheolau 17 a 18 yn nodi'r broses ar gyfer archwilio papurau enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref. Caiff unrhyw un archwilio papurau enwebu yn ystod "y cyfnod archwilio", sef oriau swyddfa arferol ar unrhyw ddiwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno'r papurau enwebu a chyn y diwrnod pleidleisio. Caiff person sy'n archwilio papurau enwebu gopïo'r papurau, neu rannau ohonynt. Dim ond personau a restrir yn Rheol 18 o'r Rheolau hyn a gaiff archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref, sef:

- ymgeisydd arall sy'n sefyll yn yr un ardal etholiadol,
- asiant etholiad ymgeisydd arall sy'n sefyll yn yr un ardal etholiadol,
- person a enwebwyd gan ymgeisydd yn yr ardal etholiadol os yw'n gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun.

Yr un yw'r cyfnod archwilio ar gyfer ffurflenni cyfeiriad cartref a phapurau enwebu, ond ni chaniateir i unrhyw un sy'n archwilio'r ffurflen cyfeiriad cartref gopïo'r ffurflen honno na darnau ohoni.

Yn olaf, mae Rheol 19 yn caniatáu i'r swyddog canlyniadau roi'r gorau i'r gweithrediadau sy'n ymwneud â'r broses enwebu os ymyrrir ar y gweithrediadau ar unrhyw ddiwrnod drwy derfysg neu drais agored. Os mai ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu y rhoddir y gorau i'r gweithrediadau, mae'n rhaid i'r gweithrediadau fynd rhagddynt y diwrnod canlynol. Ni fydd unrhyw achos o'r

fath o roi'r gorau i'r gweithrediadau yn effeithio ar ddyddiad arfaethedig y diwrnod pleidleisio, ond pan fydd y gweithrediadau'n ailgychwyn ar y diwrnod canlynol, caiff y terfynau amser a bennwyd yn ail golofn yr amserlen yn rheol 1 ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, cyflwyno hysbysiadau tynnu ymgeisyddiaeth yn ôl a chyhoeddi'r datganiad am y sawl a enwebwyd, eu hestyn ddiwrnod.

### *Dull ethol*

Ar ôl y weithdrefn enwebu a chyhoeddi'r datganiad am y sawl a enwebwyd, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu a yw nifer y sawl sy'n dal i fod wedi'u henwebu'n ddilys ar gyfer yr ardal etholiadol yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol.

Os *nad* yw nifer y sawl sy'n dal i fod wedi'u henwebu'n ddilys yn fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ddatgan bod y person neu'r personau sy'n sefyll wedi cael ei ethol neu eu hethol. Os felly, ni fydd pleidlais yn cael ei chynnal.

Os yw nifer y sawl sy'n dal i fod wedi'u henwebu'n ddilys *yn* fwy na nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol, mae'n rhaid cynnal pleidlais.

### Rhan 3: Y bleidlais mewn etholiadau a ymleddir

#### *Darpariaethau cyffredinol*

Mae'r darpariaethau cyffredinol a nodir yn Rhan 3 o'r Rheolau hyn yn ymwneud â'r paratodau y bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau eu gwneud i gynnal pleidlais i ethol y cynghorwyr.

Mae Rheol 21 yn darparu bod yn rhaid i'r pleidleisiau gael eu bwrw drwy bleidlais gudd. Rhaid i bleidlais gudd pob pleidleisiwr gynnwys papur pleidleisio. Yr unig bersonau sydd â hawl i gael eu henwau wedi'u rhoi ar y papur pleidleisio yw'r rhai sy'n parhau i fod wedi'u henwebu'n ddilys ar gyfer yr ardal etholiadol dan sylw. Mae'n rhaid i'r papur pleidleisio ddilyn y ffurf a nodir yn Atodiad 2 i'r Rheolau hyn, mae'n rhaid iddo gael ei argraffu yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir yn Atodiad 2 i'r Rheolau hyn, mae'n rhaid iddo gynnwys enwau ymgeiswyr a disgrifiadau ohonynt a gwybodaeth am eu cyfeiriad cartref yn unol â'r wybodaeth a gyhoeddwyd fel rhan o'r datganiad am y sawl a enwebwyd (noder na fydd cyfeiriad cartref person yn ymddangos ar y papur pleidleisio os bydd wedi dewis peidio â chyhoeddi ei gyfeiriad cartref, yn unol â'r datganiad am y sawl a enwebwyd; yn hytrach, yr ardal gartref berthnasol, fel y'i nodwyd gan yr ymgeisydd, a gaiff ei chyhoeddi). Mae'n rhaid bod modd plygu'r papur pleidleisio ac mae'n rhaid bod rhif a marc adnabod unigryw wedi'u hargraffu ar y cefn. Mae'n rhaid i enwau'r ymgeiswyr ar y papurau pleidleisio fod yn yr un drefn â'r hyn a roddwyd yn y datganiad am y sawl a enwebwyd.

Os yw ymgeisydd wedi defnyddio disgrifiad y mae etholwyr yn debygol o'i gysylltu â phlaidd wleidyddol gofrestredig, caiff y papur pleidleisio gynnwys un arwyddlun cofrestredig ar gyfer y blaid yn erbyn enw'r ymgeisydd hwnnw, Os yw ymgeisydd wedi defnyddio disgrifiad y mae etholwyr yn debygol o'i gysylltu â *dwy neu fwy* o



bleidiau gwleidyddol cofrestredig, caiff y papur pleidleisio gynnwys un arwyddlun cofrestredig ar gyfer *un* o'r pleidiau gwleidyddol yn erbyn enw'r ymgeisydd. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud cais ysgrifenedig i'r swyddog canlyniadau, ac mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gydymffurfio â'r cais.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi rhestr rhifau cyfatebol ac mae'n rhaid i hon fod ar y ffurf a nodir yn Atodiad 3 i'r Rheolau hyn, neu ar ffurf i'r un perwyl. Mae'n rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol fod mewn dwy ran. Mae'n rhaid i Ran 1 o'r rhestr gynnwys rhif a marciau adnabod unigryw'r holl bapurau pleidleisio sydd i'w dosbarthu i bleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio drwy'r post. Mae'n rhaid i Ran 2 gynnwys rhifau'r holl bapurau pleidleisio, ond nid y marciau adnabod unigryw, sydd i'w rhoi i orsafoedd pleidleisio i'w dosbarthu i bleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.

Mae'n rhaid i bob papur pleidleisio a ddefnyddir yn ystod yr etholiad gynnwys marciau diogelwch priodol, a elwir yn "farc swyddogol" ac mae'n rhaid cadw'r marc swyddogol yn gyfrinachol. Caiff swyddogion canlyniadau ddefnyddio marc swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn ystod yr un etholiad, ond mae'n rhaid iddynt aros am gyfnod o bum mlynedd o leiaf rhwng defnyddio'r un marc swyddogol.

Ni fydd yn ofynnol i neb sydd wedi pleidleisio mewn etholiad ddweud dros ba ymgeisydd y pleidleisiodd unrhyw bryd yn ystod unrhyw weithrediadau cyfreithiol sy'n herio'r etholiad hwnnw.

At ddiben cynnal pleidlais neu gyfrif y pleidleisiau, caiff y swyddog canlyniadau ddefnyddio unrhyw un o'r ystafelloedd canlynol yn ddi-dâl:

- ystafell mewn ysgol a gynhelir neu a gynorthwyir gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
- ystafell mewn ysgol sy'n cael grant gan Senedd Cymru;
- unrhyw ystafell arall lle mae costau cynnal a chadw'r ystafell yn cael eu talu'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy arian cyhoeddus.

Os bydd swyddog canlyniadau yn defnyddio ystafell o'r fath, bydd yn rhaid iddo unioni unrhyw ddifrod i'r ystafell o ganlyniad i'w defnyddio ar gyfer pleidlais neu gyfrif y pleidleisiau a thalu unrhyw gost y mae'r person neu'r corff sy'n rheoli'r ystafell wedi mynd iddi wrth i'r ystafell gael ei defnyddio ar gyfer pleidlais neu gyfrif y pleidleisiau.

### *Camau gweithredu i'w cymryd cyn pleidlais*

Cyn i bleidlais gael ei chynnal, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gyhoeddi hysbysiad o bleidlais sy'n nodi diwrnod y bleidlais, a'r amseroedd pleidleisio. Mae'n rhaid iddo hefyd nodi nifer y cynghorwyr sy'n cael eu hethol dros yr ardal etholiadol, ac enwau pob un o'r ymgeiswyr a disgrifiadau ohonynt ynghyd â gwybodaeth am eu cyfeiriad cartref (fel y bo'n briodol). Ar yr un pryd â chyhoeddi'r hysbysiad o bleidlais, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau roi copi o'r hysbysiad i bob ymgeisydd neu ei asiant etholiad (os oes un wedi'i benodi).

Os oes gan bleidleisiwr yr hawl i bleidleisio drwy'r post, mae'n rhaid i'r swyddog

canlyniadau ddsbarthu papur pleidleisio, datganiad pleidleisio drwy'r post (ar y ffurf a nodir yn Atodiad 4 i'r Rheolau hyn, neu ar ffurf debyg) ac amlenni ar gyfer dychwelyd yr holl bapurau pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post i'r pleidleisiwr. Mae'n rhaid i'r datganiad pleidleisio drwy'r post gynnwys lle i'r etholwr lofnodi'r ffurflen, neu pan ddefnyddir dirprwy, mae'n rhaid bod modd i'r dirprwy lofnodi'r ffurflen (oni bai bod y swyddog cofrestru wedi dileu'r angen am lofnod, yn y naill achos neu'r llall). Mae'n rhaid bod modd i'r etholwr roi ei ddyddiad geni ar y ffurflen, neu pan ddefnyddir dirprwy, mae'n rhaid bod modd i'r dirprwy roi ei ddyddiad geni.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd roi gwybodaeth i'r pleidleisiwr post ynglŷn â sut y gall gael gafael ar gymorth neu ragor o wybodaeth mewn perthynas â'i bleidlais. Bydd hyn yn cynnwys sut i gael cyfieithiadau o unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau a ddsbarthwyd ar y cyd â'r papur pleidleisio mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, cyfieithiad Braille o unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau, darluniad graffigol o unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau, neu unrhyw ffurf arall ar gyfarwyddiadau neu ganllawiau a all fod ar gael.

Os bydd y bleidlais bost yn cael ei ddsbarthu i berson mewn cyfeiriad yn y DU, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau y gall y pleidleisiwr ddychwelyd y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post yn ddi-dâl.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau bod digon o orsafoedd pleidleisio a neilltuo etholwyr i'r orsaf bleidleisio. Gellir darparu un neu fwy o orsafoedd pleidleisio yn yr un ystafell, ac mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu digon o gabanau ym mhob gorsaf bleidleisio er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr farcio eu pleidleisiau heb i neb edrych arnynt.

Mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau benodi swyddog llywyddu ym mhob gorsaf bleidleisio a digon o glercod a fydd yn angenrheidiol i gynnal y bleidlais, neu'r cyfrif, neu at ddibenion eraill yr etholiad, a'u talu. Ni chaiff y swyddog canlyniadau benodi'n fwriadol swyddog llywyddu neu glerc sydd wedi cael ei gyflogi gan neu ar ran ymgeisydd mewn cysylltiad â'r etholiad. Os bydd y swyddog canlyniadau yn dymuno, caiff llywyddu mewn gorsaf bleidleisio ar ôl gwneud addasiadau priodol o ran y camau gweithredu i'w cymryd gan swyddog canlyniadau i swyddog llywyddu neu fel arall. Caiff swyddog llywyddu mewn gorsaf bleidleisio awdurdodi'r clercod i wneud unrhyw beth (gan gynnwys gofyn cwestiynau) y mae'n ofynnol i'r swyddog llywyddu ei wneud yn yr orsaf bleidleisio neu y mae'r swyddog llywyddu wedi'i awdurdodi i'w wneud, heblaw am orchymyn gwahardd rhywun rhag dod i mewn i'r orsaf bleidleisio neu ei symud o'r orsaf bleidleisio.

Mae'r Rheolau hyn (h.y. ar gyfer etholiad cyngor cymuned a gynhelir yn annibynnol) hynny yw, na chaiff ei chynnal ar y cyd ag unrhyw etholiad arall) hefyd yn caniatáu i'r cyngor cymuned ofyn i'r swyddog canlyniadau ddsbarthu cardiau pleidleisio ar gyfer yr etholiad. Mae'n rhaid i hyn gael ei wneud erbyn 4pm ar y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn yr etholiad fan bellaf. Unwaith y bydd y cais wedi'i wneud, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, anfon neu ddsbarthu cerdyn pleidleisio swyddogol i etholwyr nad ydynt yn pleidleisio drwy'r post; cerdyn pleidleisio swyddogol i etholwyr sy'n

pleidleisio drwy'r post ac nid drwy ddirprwy; cerdyn pleidleisio swyddogol ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy i berson sy'n pleidleisio fel dirprwy dros etholwr ac nid drwy'r post; cerdyn pleidleisio dirprwy drwy'r post swyddogol i berson sy'n pleidleisio dros etholwr drwy'r post. Mae'n rhaid i gerdyn pleidleisio swyddogol, neu gerdyn pleidleisio drwy'r post swyddogol gael ei anfon neu ei ddsbarthu i gyfeiriad cymwys yr etholwr. Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r cerdyn pleidleisio dirprwy swyddogol neu'r cerdyn pleidleisio dirprwy drwy'r post swyddogol gael ei anfon neu ei ddsbarthu i gyfeiriad y dirprwy fel y'i nodwyd ar y rhestr dirprwyon.

Mae'n rhaid i bob cerdyn pleidleisio fod ar y ffurf a nodir yn Atodiad 5 i'r Rheolau hyn, neu ar ffurf i'r un perwyl. Mae'n rhaid i'r cerdyn pleidleisio gynnwys:

- enw'r cyngor y mae'r cynghorydd yn cael ei ethol iddo;
- yr ardal etholiadol y mae'r cynghorwyr i'w hethol iddi;
- nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol i'r ardal etholiadol honno;
- enw'r etholwr, cyfeiriad cymwys a'i rif ar y gofrestr;
- dyddiad ac oriau'r bleidlais a lleoliad gorsaf bleidleisio'r etholwr;
- unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn y swyddog canlyniadau.

Pan gaiff rhywun ei gynnwys ar gofrestr llywodraeth leol fel etholwr dienw, mae'n rhaid i'r cerdyn pleidleisio gynnwys yr wybodaeth fel y'i nodir uchod ac eithrio enw'r etholwr, cyfeiriad cymwys a'i rif ar y gofrestr, ac mae'n rhaid i'r cerdyn pleidleisio gael ei anfon neu ei ddsbarthu mewn amlen neu fath arall o orchudd fel na ddatgelir bod gan yr etholwr gofnod dienw.

Mae'n ofynnol hefyd i'r swyddog canlyniadau roi digon o focsys pleidleisio a phapurau pleidleisio i bob swyddog llywyddu, fel y bernir yn angenrheidiol. Mae'n rhaid i bob bocs pleidleisio fod o wneuthuriad fel y gellir rhoi papurau pleidleisio i mewn ond na ellir eu tynnu allan heb ddatgloi'r bocs neu dynnu'r sêl (yn dibynnu ar gynllun y bocs). Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau roi deunyddiau sy'n galluogi'r pleidleisiwr i farcio'r papur pleidleisio, copïau o'r gofrestr etholwyr berthnasol, hynny yw, yr etholwyr hynny a neilltuwyd i'r orsaf bleidleisio honno, copïau o hysbysiadau a gyhoeddwyd o dan adran 13B(3B) neu (3D) Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'r graddau y maent yn ymwneud â'r gofrestr etholwyr berthnasol, copïau o'r rhannau o unrhyw restrau o bersonau sydd â'r hawl i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy sy'n cyfateb i'r gofrestr etholwyr berthnasol, a rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio, sy'n cynnwys Rhan 2 o'r rhestr rhifau cyfatebol fel y'i nodir yn y Rheolau hyn, i bob gorsaf bleidleisio.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau bod copi enghreifftiol print bras o'r papur pleidleisio yn cael ei arddangos ym mhob gorsaf bleidleisio; mae'n rhaid i hwn gael ei nodi'n glir fel copi "sbesimen". Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ddarparu copi enghreifftiol chwyddedig a ddelir â llaw o'r papur pleidleisio er mwyn helpu pleidleiswyr sydd â golwg rhannol. Mae'n rhaid iddo hefyd ddarparu dyfais sy'n galluogi pleidleiswyr sy'n ddall neu sydd â golwg rhannol i bleidleisio'n annibynnol, heb gymorth y swyddog llywyddu na chydymaith (er bod rheolau 43-45 yn pennu darpariaeth y gellir ei chael gan y swyddog llywyddu neu gydymaith i'r perwyl hwn). Mae'n rhaid bod modd rhoi papur pleidleisio i mewn i'r ddyfais hon, neu ei dynnu allan, neu ei atodi neu ei ddatod heb ddifrodi'r papur pleidleisio. Mae'n rhaid i'r ddyfais hefyd ddal y papur pleidleisio yn ei le yn sownd pan fydd rhywun yn ei defnyddio a rhaid iddi fod yn

fodd addas i'r pleidleisiwr nodi'r manau ar y papur pleidleisio lle y gellir marcio pleidleisiau, adnabod yr ymgeisydd y mae pob man yn cyfeirio ato a galluogi'r pleidleisiwr i farcio ei bleidlais yn y man a ddewisir.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd ddarparu hysbysiad fel y'i nodir yn Atodiad 6 i'r Rheolau hyn sy'n rhoi cyfarwyddiadau er arweiniad pleidleiswyr wrth bleidleisio a fydd yn cael ei arddangos y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio,. Caiff y swyddog canlyniadau hefyd ddarparu copïau o'r hysbysiad mewn print Braille neu ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg, os cred y bydd hyn yn briodol.

Mae'r Rheolau hyn hefyd yn nodi y gall ymgeiswyr benodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif. Mae'n rhaid i'r penodiadau hyn gael eu gwneud cyn y bleidlais ac mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gael ei hysbysu o'r penodiadau, heb fod yn hwyrach na'r pumed diwrnod cyn y bleidlais, gan gynnwys eu manylion personol. Gall yr asiant pleidleisio fynd i'r orsaf bleidleisio gyda'r nod o ganfod achosion o *gambersonadu*, hynny yw, rhywun sy'n bwrw pleidlais yno tra bo'n esgus bod yn rhywun arall. Gall yr asiant cyfrif fod yn bresennol yn y cyfrif pleidleisiau. Gall yr un person gael ei benodi'n asiant pleidleisio neu'n asiant cyfrif gan fwy nag un ymgeisydd. Pe bai'r asiant pleidleisio neu'r asiant cyfrif yn marw, neu pe bai'n colli'r galluedd i weithredu, caniateir i'r ymgeisydd benodi asiant arall ac mae'n rhaid hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith am hyn a hefyd roi manylion personol yr asiant newydd. Os yw'r Rheolau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod rhywbeth yn cael ei wneud ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio neu'r asiantau cyfrif, ac nad oes asiant yn bresennol ar yr adeg ac yn y man a bennwyd, nid yw hyn yn annilysu'r cam a gymerwyd. Yn yr un modd, os nad oes gan ymgeisydd asiant cyfrif, caiff y swyddog canlyniadau roi i'r ymgeisydd unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi i'r asiant cyfrif.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau bod pawb sy'n bresennol mewn gorsaf bleidleisio, heblaw'r rhai sy'n pleidleisio, person dan 16 sydd wedi dod gyda phleidleisiwr i'r orsaf bleidleisio, y rhai sy'n cynorthwyo pleidleisiwr ag anabledau neu gwnstabl ar ddyletswydd, wedi cael hysbysiad sy'n nodi bod yn rhaid iddynt gadw cyfrinachedd y bleidlais a helpu i gadw cyfrinachedd y bleidlais. Ni chaniateir iddynt roi gwybod i neb, cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, i bwy y mae unigolyn wedi pleidleisio, rhif unrhyw etholwr fel y'i nodwyd ar y gofrestr etholwyr na natur y marc swyddogol. Os na fydd person yn dilyn y gyfraith fel y'i nodwyd yn adran 66(1), (3) a (6) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, bydd yn agored i ddirwy neu dymor o garchar nad yw'n fwy na chwe mis, ar ôl collfarn ddiannod.

Os caiff pleidlais bost, neu bleidlais bost drwy ddirprwy ei dychwelyd at y swyddog canlyniadau, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau farcio'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post neu'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy yn y drefn honno yn y modd a ragnodwyd gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

### *Y Bleidlais*

Mae'r rheolau hyn yn nodi pwy y caiff y swyddog llywyddu mewn gorsaf bleidleisio ganiatáu iddo ddod i mewn i'r orsaf bleidleisio ai peidio. Mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu wahardd unrhyw un o'r orsaf bleidleisio nad yw'n:

- Bleidleisiwr sydd wedi cael ei neilltuo i'r orsaf bleidleisio;
- Unrhyw un dan 16 oed sydd wedi dod gyda phleidleisiwr;
- Yr ymgeisydd a'i asiantau etholiad;
- Yr asiantau pleidleisio a benodir i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio;
- Y clercod a benodir i fod yn bresennol yn yr orsaf;
- Y swyddog canlyniadau neu aelodau o staff y swyddog canlyniadau;
- Ac unrhyw un a fyddai â hawl i fod yn yr orsaf bleidleisio o dan unrhyw un o gymalau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, sef cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig;
- Y cwnstabiliaid ar ddyletswydd;
- Cymdeithion pleidleiswyr ag anableddau.

Mae'n ofynnol i swyddog llywyddu'r orsaf bleidleisio reoli cyfanswm nifer y pleidleiswyr a phersonau o dan 16 oed sydd wedi dod gyda phleidleisiwr y caniateir iddynt fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg benodol. Ni chaniateir i fwy nag un asiant pleidleisio fesul ymgeisydd fod y tu mewn i'r orsaf bleidleisio.

Os bydd cwnstabl ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio, neu berson a gyflogir gan y swyddog canlyniadau i weithio yn yr orsaf bleidleisio, yn dymuno bwrw ei bleidlais yn yr orsaf bleidleisio honno, yn hytrach nag yn yr orsaf bleidleisio y mae wedi cael ei neilltuo iddi, caiff wneud hynny ar yr amod ei fod yn cyflwyno tystysgrif ar y ffurf a nodir yn Atodiad 7 i'r Rheolau hyn (neu ar ffurf i'r un perwyl). Yn achos cwnstabl, mae'n rhaid i'r dystysgrif hon gael ei llofnodi gan swyddog yr heddlu ar reng arolygydd neu'n uwch. Yn achos person a gyflogir gan y swyddog canlyniadau i weithio yn yr orsaf bleidleisio, mae'n rhaid i'r dystysgrif hon gael ei llofnodi gan y swyddog canlyniadau.

Mae'n rhaid i swyddog llywyddu'r orsaf bleidleisio gadw trefn yn yr orsaf bleidleisio. Os bydd person yn camymddwyn yn yr orsaf bleidleisio, neu'n methu ag ufuddhau i orchmynion a roddir yn gyfreithlon gan y swyddog llywyddu, caiff y swyddog llywyddu orchmyn i'r person hwnnw gael ei symud o'r orsaf bleidleisio. O dan yr amgylchiadau hyn, caiff y person ei symud gan gwnstabl yn yr orsaf bleidleisio neu ger yr orsaf bleidleisio neu unrhyw un arall sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan y swyddog canlyniadau i symud pobl o'r orsaf bleidleisio. Os caiff person ei symud o'r orsaf bleidleisio, ni chaiff ddychwelyd heb ganiatâd penodol y swyddog llywyddu. Os caiff person ei symud a'i gyhuddo o gyflawni trosedd yn yr orsaf bleidleisio, gellir ymdrin â'r person fel pe bai wedi cael ei roi yn y ddalfa gan gwnstabl am drosedd heb warant. Ni chaniateir i'r pwerau a nodir yn y rheol hon, sef rheol 38, gael eu harfer i atal pleidleisiwr sydd â hawl fel arall i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio rhag cael cyfle i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio honno.

Yn union cyn i'r bleidlais ddechrau, mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu ddangos y bocs pleidleisio gwag i'r bobl hynny (os oes rhai) sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio. Mae'n rhaid iddynt weld bod y bocs pleidleisio yn wag. Yna, mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu gloi'r bocs (os oes clo arno) a gosod sêl y swyddog canlyniadau arno, yn y fath fodd ag sy'n ei atal rhag cael ei agor heb dorri'r sêl. Yna, mae'r swyddog llywyddu yn gosod y bocs o fewn golwg, fel y gall papurau

pleidleisio gael eu dychwelyd iddo. Mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu gadw'r bocs dan glo, os oes clo arno, a dan sêl; os nad oes clo arno, mae'n rhaid ei gadw dan sêl.

Mae Rheol 40 yn nodi cwestiynau y caiff swyddog llywyddu eu gofyn i rywun cyn rhoi papur pleidleisio iddo. Ni chaiff ofyn unrhyw un o'r cwestiynau hyn unwaith y bydd y papur pleidleisio wedi'i roi i'r person. Mae'r Rheol hefyd yn nodi'r cwestiynau y mae'n rhaid i swyddog llywyddu eu gofyn i berson ar gais yr ymgeisydd neu'r asiant. Mae Tabl 1 a Thabl 2 a ddarperir yn Rheol 40 yn nodi union amgylchiadau'r pleidleisiwr a'r union gwestiwn y caiff swyddog llywyddu ei ofyn i'r pleidleisiwr hwnnw. Prif ddiben y cwestiynau hyn yw cadarnhau pwy yw'r pleidleisiwr ac a yw'n gymwys i gymryd rhan yn y ffordd y mae'n ceisio ei wneud, er enghraifft os yw'n gwneud cais fel dirprwy etholwr a enwir ar gofrestr llywodraeth leol.

Dim ond os bydd ymgeisydd neu asiant etholiad neu asiant pleidleisio ymgeisydd yn gwneud datganiad ysgrifenedig bod ganddo achos rhesymol dros gredu bod y person wedi cyflawni trosedd *cambersonadu*, hynny yw, yn dweud bod rhywun yn bwrw pleidlais tra bo'n esgus bod yn rhywun arall, y gellir atal rhywun rhag pleidleisio; a/neu os caiff y person ei arestio ar y sail yr amheuir ei fod yn cyflawni neu ar fin cyflawni trosedd *cambersonadu*.

Mae'r Rheolau hyn yn nodi'r weithdrefn bleidleisio sydd i'w dilyn yn yr orsaf bleidleisio gan y pleidleisiwr a staff yr orsaf bleidleisio. Pan fydd pleidleisiwr yn gwneud cais am bapur pleidleisio, bydd yn rhaid rhoi un iddo. Yn union cyn rhoi'r papur pleidleisio, mae'n rhaid dweud rhif yr etholwr, fel y'i nodwyd ar y gofrestr etholwyr, yn uchel. Oni bai bod gan yr etholwr gofnod dienw, mae'n rhaid i enw'r etholwr, fel y'i nodwyd ar y gofrestr etholwyr, gael ei ddweud yn uchel. Mae'n rhaid i rif yr etholwr gael ei farcio ar restr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio wrth ymyl rhif y papur pleidleisio a gaiff ei roi. Mae'n rhaid rhoi marc ar y gofrestr etholwyr yn yr orsaf bleidleisio wrth ymyl rhif yr etholwr er mwyn dangos bod papur pleidleisio wedi dod i law. Ni chaiff y marc hwn nodi pa bapur pleidleisio penodol a dderbyniwyd. Pan fydd y person yn gweithredu fel dirprwy, dylid rhoi marc wrth ymyl enw'r person hwnnw ar y rhestr dirprwyon. Pan fydd gan etholwr gofnod dienw ar y gofrestr etholwyr, bydd yn rhaid i gerdyn pleidleisio swyddogol yr etholwr gael ei ddangos i'r swyddog llywyddu cyn i'r papur pleidleisio gael ei roi (ni ddylid rhoi papur pleidleisio os nad oes gan yr etholwr ei gerdyn pleidleisio swyddogol) a dim ond y rhif y gellir ei ddweud yn uchel.

Unwaith y bydd y pleidleisiwr wedi cael y papur pleidleisio, bydd yn rhaid iddo fynd i mewn i un o gabanau'r orsaf bleidleisio'n syth. Yna, bydd yn rhaid i'r pleidleisiwr farcio'r papur pleidleisio yn gyfrinachol, plygu'r papur pleidleisio fel bod y bleidlais wedi'i chuddio, dangos cefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu fel y gellir gweld y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ac yna roi'r papur pleidleisio i mewn i'r bocs pleidleisio ym mhresenoldeb y swyddog llywyddu. Cyn gynted ag y bydd y pleidleisiwr wedi rhoi'r papur pleidleisio yn y bocs pleidleisio, bydd yn rhaid iddo adael yr orsaf bleidleisio. Os bydd y pleidleisiwr yn yr orsaf bleidleisio, neu mewn ciw y tu allan i'r orsaf bleidleisio, ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio ac na fydd wedi cael cyfle i fwrw ei bleidlais eto, bydd yn rhaid i'r swyddog llywyddu ganiatáu iddo fwrw ei bleidlais cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Wrth farcio'r papur pleidleisio, caiff pleidleisiwr ofyn i'r swyddog llywyddu roi'r

marc ar ei ran os yw'n ddall, os oes nam ar ei olwg neu os na all ddarllen. Mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu roi'r marc ar y papur pleidleisio yn unol â chyfarwyddyd y pleidleisiwr ac mae'n rhaid iddo wneud hynny ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio fydd yn yr orsaf bleidleisio ar adeg y cais. Unwaith y bydd wedi rhoi'r marc ar y papur pleidleisio yn unol â chyfarwyddyd y pleidleisiwr, bydd yn rhaid i'r swyddog llywyddu osod y papur pleidleisio yn y bocs pleidleisio. Os bydd y swyddog llywyddu yn gwneud hyn, bydd yn rhaid iddo gadw rhestr o bleidleiswyr a elwir yn "rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu" sy'n cynnwys enw a rhif y pleidleisiwr a'r rheswm dros farcio'r bleidlais ar ei ran.

Caiff pleidleiswyr sy'n ddall, pleidleiswyr sydd â nam ar eu golwg neu bleidleiswyr na allant ddarllen hefyd wneud cais i'r swyddog llywyddu am ganiatâd i bleidleisio gyda chymorth cydymaith. Mae'n rhaid i'r pleidleisiwr ddweud wrth y swyddog llywyddu, ar lafar neu'n ysgrifenedig, pam mae'n gofyn am gymorth cydymaith. Yna, mae'n ofynnol i gydymaith y pleidleisiwr wneud datganiad ysgrifenedig i'r swyddog llywyddu yn nodi ei fod yn gymwys i gynorthwyo'r pleidleisiwr, hynny yw, ei fod yn 16 oed neu'n hŷn. Mae hefyd yn ofynnol i'r cydymaith ddatgan yn ysgrifenedig nad yw wedi cynorthwyo mwy nag un pleidleisiwr ag anableddau yn flaenorol yn yr etholiad. Mae'n rhaid i'r datganiad hwn fod ar ffurf a nodir yn Atodiad 8 i'r Rheolau hyn ac mae'n rhaid iddo gael ei roi i'r swyddog llywyddu a fydd yn ei ardystio. Mae'n ofynnol i'r swyddog llywyddu yn yr orsaf bleidleisio gadw rhestr o bleidleiswyr a elwir yn "rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion" sy'n cynnwys enw a rhif y pleidleisiwr ac enw a chyfeiriad y cydymaith. Pan fydd gan y pleidleisiwr gofnod dienw ar y gofrestr etholwyr, dim ond y rhif etholiadol y dylid ei gofnodi ar y rhestr hon.

Mae'r Rheolau hyn hefyd yn darparu chwe set o amgylchiadau pan fydd pleidleisiwr wedi gwneud cais am bapur pleidleisio a bod ganddo'r hawl i bleidleisio unwaith y bydd wedi ateb y cwestiynau a nodir yn Rheol 40 yn foddhaol, ond y caiff eu pleidleisiau eu trin yn wahanol oherwydd bydd papur pleidleisio o liw gwahanol i'r papurau pleidleisio eraill a ddefnyddir yn yr etholiad yn cael ei roi iddo a bydd yn rhaid iddo ddychwelyd ei bleidlais i'r swyddog llywyddu yn lle ei roi yn y bocs pleidleisio:

- Y set gyntaf o amgylchiadau lle y gall hyn ddigwydd yw os bydd yr ymgeisydd yn ymhoni ei fod yn etholwr penodol a enwyd yn y copiâu o'r gofrestr etholwyr ond nad yw wedi'i enwi'n bleidleisiwr drwy'r post nac ar y rhestr dirprwyon, ac os oes rhywun arall eisoes wedi pleidleisio'n bersonol naill ai fel yr etholwr hwnnw neu fel dirprwy'r etholwr hwnnw;
- Yr ail set o amgylchiadau lle y gall hyn ddigwydd yw os bydd yr ymgeisydd yn ymhoni ei fod yn berson penodol a enwyd ar y rhestr dirprwyon fel dirprwy dros etholwr ac nad oes ganddo'r hawl i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy, a bod rhywun arall eisoes wedi pleidleisio'n bersonol naill ai fel yr etholwr hwnnw neu fel dirprwy'r etholwr hwnnw.
- Y drydedd set o amgylchiadau lle y gall hyn ddigwydd yw os bydd yr ymgeisydd yn ymhoni ei fod yn etholwr penodol a enwyd ar y gofrestr etholwyr a bod yr ymgeisydd hefyd wedi'i enwi ar y rhestr o bleidleiswyr drwy'r post, a bod yr ymgeisydd yn honni nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yn yr etholiad.
- Y bedwaredd set o amgylchiadau lle y gall hyn ddigwydd yw pan fydd yr ymgeisydd yn ymhoni ei fod yn berson penodol a enwyd fel dirprwy ar y rhestr dirprwyon a bod y person hwnnw hefyd wedi'i enwi ar y

rhestr o bleidleiswyr drwy'r post, a bod yr ymgeisydd yn honni nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy yn yr etholiad.

- Y bumed set o amgylchiadau lle y gall hyn ddigwydd yw, ar ôl yr adeg olaf y caiff rhywun wneud cais am bleidlais bost gyfnewid ond cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, fod yr ymgeisydd yn ymhoni ei fod yn etholwr penodol a enwyd yn y copiau o'r gofrestr etholwyr sydd hefyd wedi'i enwi ar y rhestr o bleidleiswyr drwy'r post a bod yr ymgeisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio drwy'r post y person neu nad yw wedi'i dderbyn.
- Y chweched set o amgylchiadau lle y gall hyn ddigwydd yw, ar ôl yr adeg olaf y caiff rhywun wneud cais am bleidlais bost gyfnewid ond cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, fod yr ymgeisydd yn ymhoni ei fod yn etholwr penodol a enwyd fel dirprwy ar y rhestr dirprwyon sydd hefyd wedi'i enwi yn y rhestr o bleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy, a bod yr ymgeisydd yn honni ei fod wedi colli papur pleidleisio drwy'r post y person hwnnw neu nad yw wedi'i dderbyn.

O dan yr holl amgylchiadau hyn, ystyrir bod y papur pleidleisio a roddir i'r swyddog llywyddu yn "bapur pleidleisio a gyflwynwyd" a chyfeirir ato fel y cyfryw yn y Rheolau hyn.

Mae Rheol 47 yn nodi dyletswyddau'r swyddog llywyddu mewn perthynas â phapurau pleidleisio a gyflwynwyd. Pan roddir papur pleidleisio a gyflwynwyd i'r swyddog llywyddu, mae'n rhaid iddo arnodi enw'r pleidleisiwr a rhif y pleidleisiwr ar y papur pleidleisio fel y'u nodwyd yng nghofrestr yr orsaf bleidleisio, neu os bydd y pleidleisiwr yn pleidleisio fel dirprwy dros etholwr, rif y pleidleisiwr hwnnw. Mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu roi'r papur pleidleisio mewn pecyn ar wahân ac mae'n rhaid cadw rhestr a elwir yn "rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd" sy'n cynnwys enw'r pleidleisiwr a rhif y pleidleisiwr fel y'u nodwyd yng nghofrestr yr orsaf bleidleisio, neu os bydd y pleidleisiwr yn pleidleisio fel dirprwy dros etholwr, rif yr etholwr hwnnw. Pan fydd gan yr etholwr gofnod dienw ar y gofrestr etholwyr, dim ond rhif y pleidleisiwr y dylid ei gadw ar y rhestr hon.

Os bydd ymgeisydd wedi ymdrin â'i bapur pleidleisio yn anfwriadol yn ystod y broses bleidleisio mewn ffordd nad oes modd ei ddefnyddio fel papur pleidleisio yn gyfleus, gellir rhoi papur pleidleisio arall iddo. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r pleidleisiwr roi'r papur pleidleisio a ddifethwyd yn ôl i'r swyddog llywyddu a phrofi er boddhad y swyddog llywyddu fod y weithred a arweiniodd at ddifetha'r papur pleidleisio yn anfwriadol. Pan roddir papur pleidleisio newydd i'r pleidleisiwr, mae'n rhaid i'r papur pleidleisio a ddifethwyd gael ei ganslo ar unwaith.

Os caiff y gofrestr etholwyr ei chywiro ar ddiwrnod y bleidlais, mae'n ofynnol i'r swyddog llywyddu gadw rhestr o bersonau y rhoddwyd papurau pleidleisio iddynt o ganlyniad i'r cywiriadau hyn. Dim ond yn unol ag adrannau 13(3B) neu (3D) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 y gellir cywiro'r gofrestr etholwyr.

Os amherir ar y gweithrediadau yn ystod y diwrnod pleidleisio neu os cânt eu hatal o ganlyniad i derfysg neu drais agored, mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu ohirio'r gweithrediadau tan y diwrnod canlynol a hysbysu'r swyddog canlyniadau ar unwaith. Pan fydd pleidlais wedi cael ei gohirio mewn gorsafoedd pleidleisio o dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn rhaid i'r orsaf



bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio newydd fod yr un fath â'r diwrnod gwreiddiol a bydd yn ddarostyngedig i'r rheolau a nodir yn y ddeddfwriaeth hon o ran diwedd y cyfnod pleidleisio.

Unwaith y bydd pob pleidleisiwr wedi bwrw ei bleidlais, mae'r Rheolau hyn yn nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau y bydd yn rhaid i'r swyddog llywyddu eu dilyn ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio. Unwaith y bydd pob pleidleisiwr wedi bwrw ei bleidlais, bydd yn rhaid i'r swyddog llywyddu selio'r bocsys pleidleisio ym mhresenoldeb yr asiantau pleidleisio, a hynny er mwyn atal papurau pleidleisio ychwanegol rhag cael eu cyflwyno. Yna, bydd yn rhaid i'r swyddog llywyddu (ac unrhyw asiantau pleidleisio sy'n dymuno gwneud hyn) osod ei sêl ar bob bocsys pleidleisio a seliwyd. Unwaith eto ym mhresenoldeb unrhyw asiantau pleidleisio, bydd yn rhaid i'r swyddog llywyddu osod y canlynol mewn pecynnau ar wahân, y caiff pob un ohonynt eu selio â sêl y swyddog llywyddu (a sêl unrhyw asiant pleidleisio sy'n dymuno ei gosod):

- Y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd;
- Y papurau pleidleisio a gyflwynwyd;
- Y copïau wedi'u marcio o'r cofnodion cofrestru ynghyd â'r rhestr dirprwyon;
- Rhestr rhifau cyfatebol yr orsaf bleidleisio;
- Unrhyw dystysgrifau a ildwyd i'r swyddog llywyddu;
- Y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y marciwyd eu pleidleisiau o dan y penawdau "anabledd" a "ddim yn gallu darllen";
- Y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau;
- Y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion;
- Y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd;
- Y rhestr o'r gwallau a gywirwyd ar y diwrnod pleidleisio.

Mae'n rhaid i'r bocsys a'r pecynnau wedi'u selio gael eu dosbarthu i'r swyddog canlyniadau naill ai gan y swyddog llywyddu neu drwy ddefnyddio trefniant a gymeradwywyd ymlaen llaw gan y swyddog canlyniadau. Ar y cyd â'r pecynnau, mae'n rhaid cyflwyno datganiad a elwir yn "gyfrif papurau pleidleisio" sydd wedi cael ei baratoi gan y swyddog llywyddu sy'n dangos:

- Nifer y papurau pleidleisio a roddwyd i'r swyddog llywyddu;
- Sut y cyfrifir am y papurau pleidleisio o dan y penawdau canlynol:
  - Nifer y papurau pleidleisio a dddosbarthwyd ac na chyfrifwyd amdanynt,
  - Nifer y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd,
  - Nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd,
  - Nifer y papurau pleidleisio a gyflwynwyd.

#### Rhan 4: Cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniad mewn etholiad a ymleddir

Ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i'r pleidleisiau gael eu cyfrif ym mhresenoldeb asiantau cyfrif cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i'r asiantau cyfrif yn nodi pryd a ble y caiff y pleidleisiau eu cyfrif.

O dan y Rheolau hyn, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif pleidleisiau:

- Y swyddog canlyniadau ac aelodau o staff y swyddog canlyniadau;
- Pob ymgeisydd a gwestai i bob ymgeisydd;
- Yr asiantau etholiad;
- Yr asiantau cyfrif;
- Cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig fel y darparwyd ar eu cyfer o dan adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda 2000;
- Y cwnstabiliaid ar ddyletswydd.

Caiff y swyddog canlyniadau ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol yn y cyfrif ond dim ond os yw'r swyddog canlyniadau wedi'i fodloni na fydd presenoldeb y person yn rhwystro'r broses o gyfrif pleidleisiau'n effeithlon a'i fod naill ai wedi ymgynghori â'r asiantau etholiad (os oes rhai wedi'u penodi) neu yn achos ymgeiswyr nad ydynt wedi penodi asiantau etholiad, yr ymgeiswyr, ynghylch a ddylid rhoi caniatâd ai peidio, neu wedi penderfynu nad yw'n ymarferol ymgynghori â'r personau hyn. Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i sicrhau bod pob person sy'n bresennol yn y cyfrif wedi cael hysbysiad sy'n nodi'r gofyniad ynglŷn â chyfrinachedd, yn unol ag adran 66(2) a (6) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau roi pob cyfleuster rhesymol i asiantau cyfrif, a'r holl wybodaeth angenrheidiol i oruchwylio'r gweithrediadau. Gwneir hyn mewn ffordd y gall y swyddog canlyniadau ei darparu'n gyson, gan sicrhau y caiff y cyfrif ei gynnal yn drefnus ac y caiff dyletswyddau'r swyddog canlyniadau eu cyflawni. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â didoli pleidleisiau pan etholir ymgeisydd drwy ddefnyddio'r mwyafrif syml. Mae gan asiant cyfrif yr hawl i'w fodlon ei hun bod y papurau pleidleisio wedi cael eu didoli'n gywir yn yr achos hwn cyn i'r cyfrif ddechrau.

Cyn i'r cyfrif ddechrau, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau, ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif, agor pob bocs pleidleisio, tynnu'r papurau pleidleisio, eu cyfrif a chofnodi'r nifer. Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd. Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau, unwaith eto ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif, ddilysu pob cyfrif papurau pleidleisio drwy ei gymharu â nifer y papurau pleidleisio a gofnodwyd, y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau a'r rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd. Yn dilyn hyn, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau lunio datganiad sy'n nodi canlyniad y broses ddilysu ac mae'n rhaid iddo roi copi o'r datganiad hwn i unrhyw asiant etholiad sy'n gofyn amdano.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd gyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi cael eu dychwelyd yn gywir. Mae hyn yn golygu bod y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post ategol wedi'i gwblhau'n briodol wedi cael eu dychwelyd mewn gorsafoedd pleidleisio yn yr ardal etholiadol cyn diwedd y cyfnod pleidleisio (mae gan berson sy'n sefyll y tu mewn i'r orsaf pleidleisio neu yn y ciw ar gyfer yr orsaf pleidleisio yr hawl i ddychwelyd ei bleidlais bost a chaiff ei chyfrif), eu cyflwyno'n bersonol i'r swyddog canlyniadau cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, neu eu derbyn gan y swyddog canlyniadau drwy'r post cyn diwedd y

cyfnod pleidleisio. Yn yr achos hwn, bydd datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau'n briodol wedi'i lofnodi gan yr etholwr neu gan y dirprwy a bydd yn nodi dyddiad geni'r etholwr neu'r dirprwy. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau gofnodi nifer y papurau pleidleisio drwy'r post a gyfrifwyd.

Ni ddylai'r swyddog canlyniadau gyfrif y pleidleisiau a roddwyd ar unrhyw bapur pleidleisio nes y byddant, yn achos y papurau pleidleisio drwy'r post, wedi cael eu cymysgu â'r papurau pleidleisio o un bocs pleidleisio o leiaf ac, yn achos papurau pleidleisio o focs pleidleisio, wedi'u cymysgu â'r papurau pleidleisio o un bocs pleidleisio o leiaf.

Tra bydd y broses o gyfrif a chofnodi nifer y papurau pleidleisio yn cael ei chynnal, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau gymryd pob rhagofal i atal unrhyw un rhag adnabod y pleidleisiwr sydd wedi bwrw'r bleidlais.

Mae'n rhaid i ganlyniad y bleidlais gael ei gadarnhau drwy gyfrif y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd. Mae'n rhaid datgan bod yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr y rhoddwyd mwy o bleidleisiau iddynt na'r ymgeiswyr eraill (hyd at nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol) wedi cael ei ethol neu eu hethol. Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau, cyhyd ag y bo'n ymarferol, barhau i gyfrif y pleidleisiau yn barhaus a dim ond rhoi amser ar gyfer lluniaeth. Fodd bynnag, os dymuna'r swyddog canlyniadau, gall beidio â chynnwys unrhyw oriau rhwng 7pm a 9am drannoeth. Os bydd y swyddog canlyniadau yn dewis peidio â chynnwys unrhyw gyfnod o amser, bydd yn rhaid iddo roi'r papurau pleidleisio a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r etholiad o dan sêl y swyddog canlyniadau a sêl unrhyw asiantau cyfrif sy'n dymuno gosod eu seliau hwythau. Mae'n rhaid iddo hefyd gymryd rhagofalon priodol i ddiogelu'r papurau pleidleisio a dogfennau eraill.

Mae'r Rheolau hyn yn nodi'r rhesymau dros wrthod papur pleidleisio a'i ystyried yn ddi-rym. Gellir gwrthod papur pleidleisio, ymhlith rhesymau eraill, os nad yw'n dwyn y marc swyddogol, os yw'r pleidleisiwr wedi rhoi mwy o bleidleisiau ar y papur pleidleisio dros fwy o ymgeiswyr nag y mae ganddo hawl i'w wneud, os oes unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu wedi'i farcio ar y papur pleidleisio lle y gellir adnabod y pleidleisiwr ac eithrio'r rhif argraffedig a'r marc adnabod unigryw arall ar y cefn, os nad yw'r papur pleidleisio wedi'i farcio neu os yw'r papur pleidleisio yn ddi-rym oherwydd ansicrwydd.

Os oes gan y pleidleisiwr yr hawl i bleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd, ni ddylid trin papur pleidleisio fel pe bai'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd lle mae unrhyw bleidlais wedi cael ei bwrw ac nad oes unrhyw ansicrwydd yn ei chylch; yn yr achos hwn, mae'n rhaid cyfrif y bleidlais honno. Mae hyn yn golygu, mewn rhai achosion, y gall papurau pleidleisio gynnwys pleidlais ddilys a phleidlais annilys lle mae'n amlwg bod un (neu fwy) o'r pleidleisiau wedi cael ei bwrw'n gywir a heb unrhyw ansicrwydd.

Ni ddylid trin papur pleidleisio fel pe bai'n ddi-rym dim ond oherwydd y ffordd y mae wedi'i farcio, os yw'n amlwg o'r papur pleidleisio bod y pleidleisiwr wedi bwriadu pleidleisio dros un ymgeisydd neu'r llall, nid yw'r ffordd y mae'r papur pleidleisio wedi'i farcio ynddi'i hun yn adnabod y pleidleisiwr ac mae'r swyddog canlyniadau wedi'i fodloni na ellir adnabod y pleidleisiwr o edrych ar y papur pleidleisio. Dylid cymhwyso'r Rheol hon at bapurau pleidleisio pan fo pleidlais

wedi'i marcio mewn man arall yn hytrach na'r man cywir, drwy ffordd nad yw'n groes neu drwy fwy nag un marc.

Pan gaiff papur pleidleisio ei wrthod o dan Reol 56, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau sicrhau bod "gwrthodwyd" wedi'i farcio arno neu, yn achos papur sydd wedi'i wrthod yn rhannol, mae'n rhaid marcio "gwrthodwyd yn rhannol" arno ac mae'n rhaid nodi'n glir pa bleidlais a gyfrifwyd. Os bydd asiant cyfrif yn gwrthwynebu penderfyniad y swyddog canlyniadau, yna bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau ychwanegu "gwrthwynebwyd y penderfyniad i'w wrthod" ar y papur pleidleisio. Yna, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau baratoi datganiad sy'n dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd a'r nifer a wrthodwyd yn rhannol gyda dadansoddiad o'r rhesymau dros y penderfyniad i wrthod papur pleidleisio neu ei wrthod yn rhannol. Mae penderfyniad y swyddog canlyniadau mewn perthynas â phapur pleidleisio yn derfynol, ond gall gael ei adolygu drwy ddeiseb etholiadol.

Unwaith y bydd y cyfrif wedi'i gwblhau, caiff ymgeisydd neu asiant ymgeisydd ofyn am ailgyfrif os dymuna hynny. Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gydymffurfio â'r cais hwn oni fydd y swyddog canlyniadau yn credu bod y cais yn afresymol. Ni ddylid cymryd unrhyw gamau i gwblhau'r broses gyfrif nes bod yr ymgeiswyr a'r asiantau wedi cael cyfle i ofyn am ailgyfrif. Mae'r Rheol hon hefyd yn gymwys i ailgyfrifiad, hynny yw, caiff ymgeisydd neu asiant etholiad ymgeisydd ofyn am ailgyfrif ailgyfrifiad cyhyd â'i fod yn bresennol yn yr ailgyfrifiad gwreiddiol.

Os bydd yr amgylchiadau yn codi, ar ôl cyfrif y pleidleisiau ac unrhyw ailgyfrifiadau, lle mae'r pleidleisiau rhwng unrhyw ymgeiswyr yn gyfartal ac y byddai ychwanegu un bleidlais yn rhoi hawl i unrhyw un o'r ymgeiswyr gael ei ethol, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu ar unwaith rhwng yr ymgeiswyr drwy dynnu enwau ar hap. Dylid ystyried bod yr ymgeisydd y tynnwyd ei enw ar hap wedi cael pleidlais ychwanegol a chaiff ei ddatgan yn ymgeisydd etholedig.

Pan fydd y cyfrif wedi'i gwblhau, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau ddatgan bod yr ymgeisydd, neu ymgeiswyr, sydd wedi cael mwy o bleidleisiau na'r ymgeiswyr eraill wedi cael ei ethol neu eu hethol; bydd yn rhaid iddo hefyd hysbysu'r swyddog priodol yn y cyngor cymuned y cynhaliwyd yr etholiad ar ei gyfer am yr ymgeiswyr a etholwyd, a'r swyddog priodol yn y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol lle mae'r gymuned wedi'i lleoli. Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd gyhoeddi hysbysiad am enwau'r ymgeiswyr a etholwyd, cyfanswm nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd (ac a gawsant eu hethol ai peidio) a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob pennawd yn y datganiad am bleidleisiau a wrthodwyd.

#### Rhan 5: Gwaredu dogfennau

Pan fydd y broses o gyfrif pleidleisiau wedi'i chwblhau, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau selio'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd a'r papurau pleidleisio a wrthodwyd mewn pecynnau ar wahân. Ni chaiff y swyddog canlyniadau agor unrhyw becynnau a seliwyd yn flaenorol sy'n cynnwys y papurau pleidleisio a gyflwynwyd, rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau, tystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiadaid neu staff swyddogion canlyniadau, neu gopiâu wedi'u marcio o'r

cofnodion cofrestr a'r rhestrau dirprwyon.

Pan fydd swyddog canlyniadau wedi selio'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd a'r papurau pleidleisio a wrthodwyd, bydd yn rhaid iddo anfon y dogfennau canlynol at swyddog cofrestru'r awdurdod lleol y cynhaliwyd yr etholiad yn ei ardal:

- Y pecynnau o bapurau pleidleisio sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau;
- Y cyfrifon papurau pleidleisio;
- Y datganiadau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd;
- Y datganiad ynglŷn â chanlyniad y broses o ddilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio;
- Y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y marciwyd eu pleidleisiau o dan y penawdau "anabledd" a "ddim yn gallu darllen";
- Y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau;
- Y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion;
- Y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd;
- Y rhestrau o wallau a gywirwyd ar y gofrestr etholwyr ar y diwrnod pleidleisio;
- Y pecynnau sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau;
- Y pecynnau sy'n cynnwys tystysgrifau a ildwyd gan y cwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau;
- Y pecynnau sy'n cynnwys copïau o'r cofnodion cofrestru a'r rhestrau dirprwyon;
- Y pecynnau sy'n cynnwys y rhestr o bleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy.

Mae'n rhaid cadw'r dogfennau hyn am gyfnod o flwyddyn yn dechrau ar y diwrnod y mae'r swyddog cofrestru yn eu derbyn. Ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn, rhaid i'r swyddog cofrestru ddinistrio'r dogfennau oni chaiff gyfarwyddyd fel arall drwy orchymyn gan lys sirol, Llys y Goron, llys ynadon, neu lys etholiadol.

Yn yr un modd, rhaid i'r swyddog canlyniadau ddinistrio ffurflenni cyfeiriad cartref pob ymgeisydd y diwrnod ar ôl y 35<sup>ain</sup> diwrnod ar ôl i'r swyddog canlyniadau ddatgan enwau'r aelodau etholedig. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd oni chaiff deiseb etholiadol yn amau'r etholiad neu etholiad ymgeiswyr ei chyflwyno cyn y diwrnod hwnnw. Os digwydd hyn, yna mae'n rhaid i'r dogfennau gael eu dinistrio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r gweithrediadau ddod i ben sy'n cynnwys gweithrediadau'r apêl pan fo apêl.

Mae Rheol 63 yn nodi sut y dylid cyflwyno dogfennaeth i lys sirol. Mae'n ymwneud â dogfennau penodol sy'n cael eu gwarchod gan y swyddog cofrestru, sef:

- Papurau pleidleisio a wrthodwyd a phapurau pleidleisio a gyfrifwyd;
- Pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau;
- Pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys tystysgrifau a ildwyd gan y cwnstabiliaid neu staff swyddogion canlyniadau.

Os bydd llys sirol wedi'i fodloni gan dystiolaeth a roddir ar lw, gall wneud unrhyw un o'r gorchmynion canlynol a restrir. Mae'r gorchmynion hyn yn ofynnol er mwyn cychwyn erlyniad am drosedd mewn perthynas â phapur pleidleisio, neu mewn perthynas â phapurau pleidleisio at ddiben deiseb etholiadol a pharhau ag ef. Y gorchmynion hyn yw:

- Gorchymyn i archwilio neu gyflwyno unrhyw un o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd, gan gynnwys unrhyw bapurau pleidleisio a wrthodwyd yn rhannol;
- Gorchymyn i archwilio unrhyw un o'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd;
- Gorchymyn i agor unrhyw un o'r pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau neu dystysgrif a ildwyd gan gwnstabiaid neu staff swyddogion canlyniadau. Gellir gwneud y gorchymyn hwn i archwilio holl gynnwys pecyn wedi'i selio neu ran ohono.

Caiff llys etholiadol wneud gorchmynion sy'n ymwneud â'r dogfennau hyn a gall wneud:

- Gorchymyn i archwilio unrhyw un o'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd;
- Gorchymyn i agor unrhyw un o'r pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau neu dystysgrif a ildwyd gan gwnstabiaid neu staff swyddogion canlyniadau. Gellir gwneud y gorchymyn hwn i archwilio holl gynnwys pecyn wedi'i selio neu ran ohono.

Caiff unrhyw orchymyn a wneir o dan y Rheol hon ei wneud yn ddarostyngedig i unrhyw un o'r amodau canlynol sy'n briodol ym marn y llys. Wrth benderfynu beth sy'n briodol, dylai'r llys ystyried sut i sicrhau nad yw'r ffordd y mae'r etholwr wedi rhoi ei bleidlais yn cael ei datgelu, oni phrofir, a hyd nes y profir, fod yr etholwr wedi rhoi ei bleidlais a bod y bleidlais wedi'i datgan yn annilys gan lys cymwys. Yr amodau yw:

- Amodau ynglŷn â pherson;
- Amodau ynglŷn ag amser;
- Amodau ynglŷn â'r man a'r dull archwilio;
- Amodau ynglŷn â chyflwyno neu agor.

Caiff y pŵer a nodir yn y Rheol hon ei arfer gan unrhyw farnwr yn y llys sirol ond ni chaniateir ei arfer mewn llys agored. Caiff unrhyw apeliadau ynglŷn â gorchymyn a wneir o dan y Rheol hon eu cyflwyno i'r Uchel Lys. Oni noda'r Rheol fel arall, ni chaiff neb archwilio unrhyw un o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd na'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd, agor unrhyw un o'r pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau neu dystysgrifau a ildwyd gan gwnstabiaid neu staff swyddogion canlyniadau.

Pan gyflwynir unrhyw un o'r pecynnau a nodir uchod gan y swyddog cofrestru, neu asiant y swyddog cofrestru mewn cydymffurfiaeth â'r gorchymyn hwn, mae'n rhaid derbyn bod hon yn dystiolaeth bendant bod y dogfennau a geir yn y pecynnau yn ymwneud â'r etholiad penodedig. Yn yr un modd, os bydd pecyn wedi'i arnodi o bapurau pleidleisio yn cael ei gyflwyno gan y swyddog cofrestru

neu asiant y swyddog cofrestru, mae'n rhaid derbyn bod y papurau pleidleisio fel y'u datganwyd. Mae hyn hefyd yn gymwys i'r pleidleisiau a fwriwyd ar y papurau pleidleisio hynny, hynny yw, mae'n rhaid derbyn mai'r etholwr y rhoddwyd ei bleidlais ar bapur pleidleisio penodol oedd yr etholwr fel y'i nodwyd ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr etholiad penodedig.

#### Rhan 6: Marwolaeth ymgeisydd

Mae'r ddarpariaeth olaf yn Atodlen 1 yn ymwneud â dirymu neu roi'r gorau i bleidlais o ganlyniad i farwolaeth ymgeisydd. Os yw'r swyddog canlyniadau wedi'i fodloni, mewn etholiad a ymleddir (cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan), fod un o'r ymgeiswyr a enwyd ar y papur pleidleisio wedi marw, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ddirymu'r hysbysiad o bleidlais, neu os yw'r bleidlais wedi dechrau, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau roi cyfarwyddyd i roi'r gorau i'r bleidlais ac ni chaiff unrhyw bapurau pleidleisio eraill eu dosbarthu.

Os rhoddir y gorau i bleidlais, mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu mewn unrhyw orsaf bleidleisio a ddefnyddir yn ystod yr etholiad gymryd y camau angenrheidiol a nodir yn y Rheolau hyn, ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio. Nid oes angen i'r swyddog llywyddu baratoi cyfrif papurau pleidleisio.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ymdrin â phapurau pleidleisio a dogfennau eraill sydd yn ei feddiant (neu a gaiff eu dosbarthu iddo'n ddiweddarach) pan roddir y gorau i'r bleidlais yn yr un ffordd ag y byddai'n ymdrin â dogfennaeth o dan amgylchiadau arferol ac yn unol â'r Rheolau a nodir yn yr Atodlen hon. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau selio'r holl bapurau pleidleisio (p'un a yw'r pleidleisiau wedi cael eu cyfrif ai peidio) ac nid oes angen selio papurau pleidleisio a gyfrifwyd a phapurau pleidleisio a wrthodwyd mewn pecynnau ar wahân. Bydd unrhyw bapurau pleidleisio nad yw'r pleidleisiau arnynt wedi'u cyfrif nac wedi'u gwrthod yn cael eu trin fel pe baent yn bapurau pleidleisio a gyfrifwyd.

## Atodlen 2

### Rheolau ar gyfer cynnal etholiad prif gyngor pan gynhelir y bleidlais ar y cyd â'r bleidlais mewn etholiad perthnasol arall

Mae Atodlen 2 yn nodi'r rheolau sy'n gymwys i gynnal etholiad pan gynhelir y bleidlais ar y cyd â'r bleidlais mewn un etholiad perthnasol arall neu fwy. Mae'r rhan fwyaf o'r Rheolau yr un fath â'r rheolau ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned a gynhelir yn annibynnol, ond mae rhai gwahaniaethau pwysig. Nodir isod y Rheolau hynny sy'n newydd, yn sylweddol wahanol neu sy'n cynnwys mân wahaniaethau.

Er nad yw'r Rheolau hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag etholiadau llywodraeth leol pan gânt eu cyfuno ag etholiadau Senedd Cymru, mae Atodlen 4 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn parhau i gymwys (fel y'i haddaswyd) i gyfuniadau o'r fath.

### Rhan 3: Y bleidlais mewn etholiadau a ymleddir

#### *Darpariaethau cyffredinol*

Mae Rhan 3 o'r Rheolau hyn yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer etholiadau a ymleddir. Pan gyfunir pleidlais, ar y cyfan, mae'r Rheolau yr un fath â'r rheolau sy'n gymwys pan gynhelir pleidlais mewn etholiad cyngor cymuned annibynnol. Mae rhai mân newidiadau i'r Rheolau, er enghraifft, o dan yr amgylchiadau hyn mae'n rhaid i'r papur pleidleisio fod o liw gwahanol i unrhyw bapurau pleidleisio a ddefnyddir mewn unrhyw etholiad arall a gynhelir ar y cyd â'r etholiad ar gyfer prif gyngor.

Yn yr un modd, os cyfunir y bleidlais, bydd nifer o swyddogaethau y bydd yn rhaid i'r "swyddog canlyniadau cydgysylltu" ymgymryd â nhw. Mae hyn yn golygu y gall y swyddogaeth berthnasol gael ei chyflawni ar gyfer y ddau etholiad gan y swyddog canlyniadau sydd, o dan reoliad 4 o Reoliadau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Etholiadau) (Cymru a Lloegr) 2004 ("Rheoliadau Cyfuno Etholiadau") yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a bennwyd yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn, ac os felly, caiff yr unigolyn hwnnw ei alw'n "swyddog canlyniadau cydgysylltu". Mae'r swyddogaethau hyn yn rhychwantu'r Rheolau ac maent yn berthnasol iawn i'r dyletswyddau a gyflawnir mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post, ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio ac yn ystod y cyfrif. Ceir rhagor o fanylion (lle y bo modd) am y swyddogaethau hyn o dan yr adrannau perthnasol.

Os cyfunir etholiad ar gyfer ardal cymuned â phleidlais arall, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau ddsbarthu cardiau pleidleisio. Wrth ddsbarthu cardiau pleidleisio, os bydd y swyddog canlyniadau ar gyfer pob etholiad perthnasol yn cytuno, gellir ddsbarthu cerdyn pleidleisio cyfun sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y ddau etholiad fel y nodir uchod.

Wrth baratoi ar gyfer y diwrnod pleidleisio, mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau ddarparu digon o focsys pleidleisio a phapurau pleidleisio i bob swyddog llywyddu, fel y bernir yn angenrheidiol. Mae'n rhaid i bob bocsys pleidleisio fod o wneuthuriad fel y gellir rhoi papurau pleidleisio i mewn ond na ellir eu tynnu allan heb ddatgloi'r bocsys neu dynnu'r sêl (yn dibynnu ar gynllun y bocsys). Os bydd y swyddog canlyniadau o'r farn ei bod yn briodol, gellir defnyddio'r un bocsys pleidleisio ar gyfer unrhyw etholiadau perthnasol sy'n cael eu cynnal ar y diwrnod pleidleisio hwnnw, hynny yw, yr etholiad ar gyfer ardal cymuned ac unrhyw etholiad perthnasol arall. Os na fydd yn briodol ym marn y swyddog canlyniadau, bydd yn rhaid gwneud darpariaethau penodol ar gyfer defnyddio bocsys pleidleisio gwahanol. Rhaid marcio'n glir ar bob bocsys pleidleisio i ba etholiad y mae'n berthnasol fel y dangosir ar y papur pleidleisio ar gyfer yr etholiad hwnnw, a rhaid i'r bocsys nodi'n glir beth yw lliw'r papur pleidleisio y dylid ei roi yn y bocsys.

#### *Y Bleidlais*

Mae'n ofynnol i swyddogion llywyddu gorsafoedd pleidleisio (fel yn achos etholiadau ar gyfer cynghorau cymuned a gynhelir yn annibynnol) gadw rhestrau



unigol o etholwyr o dan amgylchiadau penodol, sef. Mae'r amgylchiadau fel a ganlyn:

- Pan ofynnir i'r swyddog llywyddu roi marc y pleidleisiwr ar y papur pleidleisio os yw'n ddall, os oes ganddo nam neu os nad yw'n gallu darllen;
- Pan fo cais wedi cael ei wneud i'r swyddog llywyddu am gydymaith i gynorthwyo pleidleisiwr sy'n ddall, pleidleisiwr sydd â nam neu pleidleisiwr nad yw'n gallu darllen;
- Pan ddosberthir pleidlais a gyflwynwyd, o dan yr amgylchiadau hyn, mae "pleidlais a gyflwynwyd" yr un fath â'r hyn a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn;
- Pan gaiff cofrestr yr orsaf bleidleisio ei chywiro ar y diwrnod pleidleisio.

Ym mhob un o'r achosion hyn, os cyfunir y bleidlais, caiff y swyddog llywyddu ddefnyddio'r rhestr ar gyfer yr etholiad ar gyfer ardal cymuned ac unrhyw etholiad perthnasol arall y mae'r pleidleisiwr wedi cymryd rhan ynddo. Pan ddefnyddir yr un rhestr, mae'n rhaid nodi'n glir pa etholiad y cymerodd yr etholwr ran ynddo, os na chymerodd ran ym mhob un o'r etholiadau a oedd yn cael eu cynnal yn yr orsaf bleidleisio.

#### Rhan 4: Cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniad mewn etholiad a ymleddir

Mae'r Rheolau a nodir yn y rhan hon yn cael eu cymhwyso'n wahanol at swyddogion canlyniadau, yn dibynnu ar b'un ai swyddog canlyniadau cydgysylltu ydyw ai peidio. Er bod hyn yn annhebygol yn achos y cyfuniad mwyaf cyffredin o etholiadau (h.y. cyngor cymuned ar y cyd â phrif gyngor), o ystyried y bydd y swyddog canlyniadau ar gyfer etholiad prif gyngor yn swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned a thref, efallai y bydd amgylchiadau'n codi lle bydd y swyddog canlyniadau cydgysylltu yn berson gwahanol. Os mai'r swyddog canlyniadau yw'r swyddog canlyniadau cydgysylltu, mae'r Rheolau canlynol yn gymwys:

- Rheolau 53 (presenoldeb mewn gweithrediadau);
- Rheol 54 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol);
- Rheol 55 (gwahanu papurau pleidleisio ac ati).
- Rheol 58 i 64 (darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrif ac ati)

Os nad y swyddog canlyniadau yw'r swyddog canlyniadau cydgysylltu, mae'r Rheolau canlynol yn gymwys:

- Rheol 53(1) a (3) i (8) (presenoldeb mewn gweithrediadau);
- Rheol 56 (dyletswyddau rhagarweiniol a chyffredinol);
- Rheol 57 (agor cynwysyddion ac ati);
- Rheol 58 i 64 (darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrif ac ati)

Mae Rheol 53 yn nodi pwy a ganiateir i fod yn bresennol mewn gweithrediadau sy'n ymwneud â gwahanu papurau pleidleisio, agor cynwysyddion a'r cyfrif ei hun. Mae gan y canlynol yr hawl i fod yn bresennol yn ystod y gweithrediadau hyn:

- Y swyddog canlyniadau ac aelodau o staff y swyddog canlyniadau;
- Pob ymgeisydd a gwestai i bob ymgeisydd;
- Yr asiantau etholiad cymuned (os oes rhai wedi'u penodi);
- Yr asiantau cyfrif cymuned (os oes rhai wedi'u penodi);
- Cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig fel y darparwyd ar eu cyfer o dan adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda 2000;
- Y cwnstabiliaid ar ddyletswydd.

Hefyd, caniateir i unrhyw berson sydd â hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif pleidleisiau yn yr orsaf berthnasol, hynny yw, nid etholiad ar gyfer ardal cymuned, hefyd fod yn bresennol mewn gweithrediadau sy'n ymwneud â gwahanu papurau pleidleisio.

Caiff y swyddog canlyniadau hefyd ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol mewn gweithrediadau sy'n ymwneud â gwahanu papurau pleidleisio, agor cynwysyddion a'r cyfrif ond dim ond os bydd y swyddog canlyniadau wedi'i fodloni na fydd presenoldeb y person yn rhwystro'r swyddog canlyniadau rhag cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithlon ac os bydd wedi ymgynghori â'r asiantau etholiad, neu yn achos ymgeiswyr nad ydynt wedi penodi asiantau etholiad, yr ymgeiswyr ynghylch a ddylid rhoi caniatâd ai peidio, neu wedi penderfynu nad yw'n ymarferol ymgynghori â'r personau hyn.

Mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau roi cyfleusterau rhesymol i asiantau cyfrif wrth iddynt oruchwylio unrhyw un o'r gweithrediadau y mae ganddynt yr hawl i fod yn bresennol ynddynt. Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau, hyd y gellir, hefyd roi'r holl wybodaeth am weithrediadau i'r asiantau cyfrif. Mae'n rhaid gwneud hynny mewn ffordd gyson a thrwy gynnal gweithrediadau mewn ffordd drefnus ac mae'n rhaid i hynny ganiatáu i'r swyddog canlyniadau gyflawni ei ddyletswyddau'n llawn ac yn briodol. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â didoli pleidleisiau pan etholir ymgeisydd drwy ddefnyddio'r mwyafrif syml. Mae gan asiant cyfrif prif ardal yr hawl i'w fodloni ei hun, yn yr achos hwn, fod y papurau pleidleisio wedi cael eu didoli'n gywir cyn i'r cyfrif ddechrau.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau cydgysylltu wneud trefniadau i'r pleidleisiau gael eu cyfrif ym mhresenoldeb asiantau cyfrif yr ardal cymuned (os cânt eu penodi) ac unrhyw asiantau cyfrif eraill cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i'r asiantau cyfrif yn nodi pryd a ble y caiff y pleidleisiau eu cyfrif. Tra bydd y broses o gyfrif a chofnodi pleidleisiau yn cael ei chynnal, dylai'r swyddog canlyniadau gymryd pob rhagofal i atal unrhyw un rhag adnabod y pleidleisiwr sydd wedi bwrw'r bleidlais.

Os mai'r swyddog canlyniadau yw'r swyddog canlyniadau cydgysylltu, mae'n rhaid iddo, ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif cymuned ac asiantau cyfrif eraill, agor pob bocs pleidleisio, tynnu'r papurau pleidleisio a chofnodi ar wahân nifer y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd ym mhob etholiad. Ni chaiff y swyddog canlyniadau gyfrif unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd. Os defnyddiwyd bocsys pleidleisio ar wahân yn yr etholiad, ni chaniateir i unrhyw bleidlais i ymgeisydd yn yr etholiad ar gyfer ardal cymuned gael ei thrin fel pe bai'n annilys am iddi gael ei rhoi yn y bocs pleidleisio ar gyfer yr etholiad perthnasol arall a

oedd yn cael ei gynnal.

Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd gyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post sydd wedi cael eu dychwelyd yn gywir. Mae hyn yn golygu bod y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post ategol wedi'i gwblhau'n briodol wedi cael eu dychwelyd mewn gorsafoedd pleidleisio yn y ward etholiadol cyn diwedd y cyfnod pleidleisio (mae gan berson sy'n sefyll y tu mewn i'r orsaf bleidleisio neu yn y ciw ar gyfer yr orsaf bleidleisio yr hawl i ddychwelyd ei bleidlais bost a chaiff ei chyfrif), eu cyflwyno'n bersonol i'r swyddog canlyniadau cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, neu eu derbyn gan y swyddog canlyniadau drwy'r post cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Yn yr achos hwn, bydd datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i gwblhau'n briodol wedi'i lofnodi gan yr etholwr neu gan y dirprwy a bydd yn nodi dyddiad geni'r etholwr neu'r dirprwy. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau gofnodi ar wahân nifer y pleidleisiau post dilys a gyfrifwyd yn y bleidlais yn yr etholiad ar gyfer y brif ardal ac ym mhob etholiad perthnasol.

Yn dilyn hyn, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau wahanu'r papurau pleidleisio sy'n ymwneud â'r etholiad ar gyfer yr ardal cymuned oddi wrth y papurau pleidleisio sy'n ymwneud â phob etholiad perthnasol. Yna, mae'n rhaid iddo baratoi pecynnau o bapurau pleidleisio ar gyfer pob etholiad perthnasol a selio'r pecynnau hyn mewn cynwysyddion ar wahân gan nodi'r glir ar bob un pa bapurau pleidleisio sydd ynddynt. Yna, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau ddsbarthu, neu drefnu i ddsbarthu, y cynwysyddion sy'n cynnwys y papurau pleidleisio ar gyfer pob etholiad ynghyd â rhestr o'r cynwysyddion a'u cynnwys, y cyfrifon papurau pleidleisio sy'n ymwneud â'r etholiad ynghyd â chopi o'r datganiad ynghylch canlyniad y broses ddilysu a'r pecynnau o bapurau pleidleisio nas defnyddiwyd neu'r papurau pleidleisio a ddifethwyd, papurau pleidleisio a gyflwynwyd a thystysgrifau a ildwyd yn ystod y bleidlais i bob un o'r swyddogion canlyniadau perthnasol ar gyfer pob etholiad.

Yna, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gymysgu'r holl bapurau pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr etholiad ar gyfer y brif ardal â'i gilydd.

Os nad y swyddog canlyniadau cydgysylltu yw'r swyddog canlyniadau, mae'n rhaid iddo gymryd camau penodol cyn y cyfrif fel y'u nodwyd yn Rheol 56. Mae'n rhaid iddo wneud trefniadau ar gyfer cyfrif y pleidleisiau ym mhresenoldeb yr asiantau cyfrif cymuned cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r papurau pleidleisio gael eu dosbarthu gan y swyddog canlyniadau cydgysylltu.

Mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad i'r asiantau cyfrif yn nodi pryd a ble y caiff y pleidleisiau eu cyfrif. Tra bydd y broses o gyfrif a chofnodi pleidleisiau yn cael ei chynnal, dylai'r swyddog canlyniadau gymryd pob rhagofal i atal unrhyw un rhag adnabod y pleidleisiwr sydd wedi bwrw'r bleidlais.

Ar ôl derbyn y cynwysyddion sy'n cynnwys y papurau pleidleisio gan y swyddog canlyniadau cydgysylltu, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau agor pob cynhwysydd ym mhresenoldeb asiantau cyfrif yr ardal cymuned. Os nad yw'r swyddog canlyniadau cydgysylltu wedi ymdrin â'r pleidleisiau post ar gyfer yr etholiad perthnasol, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd yn briodol a chofnodi'r nifer a gyfrifwyd. Mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gymysgu'r holl bapurau pleidleisio a'r

papurau pleidleisio o'r cynwysyddion gyda'i gilydd.

#### Rhan 5: Gwaredu dogfennau

Pan fydd y broses o gyfrif pleidleisiau wedi'i chwblhau, bydd yn rhaid i'r swyddog canlyniadau selio'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd a'r papurau pleidleisio a wrthodwyd mewn pecynnau ar wahân. Ni chaiff y swyddog canlyniadau agor unrhyw becynnau a seliwyd yn flaenorol sy'n cynnwys y papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Os mai'r swyddog canlyniadau yw'r swyddog canlyniadau cydgysylltu, ni chaiff y swyddog canlyniadau chwaith agor unrhyw becynnau a seliwyd yn flaenorol sy'n cynnwys y papurau pleidleisio a gyflwynwyd, rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau, tystysgrifau a ildiwyd gan gwnstabiaid neu staff swyddogion canlyniadau, neu gopiâu wedi'u marcio o'r cofnodion cofrestr a'r rhestrau dirprwyon.

Pan fydd swyddog canlyniadau wedi selio'r papurau pleidleisio a gyfrifwyd a'r papurau pleidleisio a wrthodwyd, bydd yn rhaid iddo anfon y dogfennau canlynol at swyddog cofrestru'r cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol y cynhaliwyd yr etholiad yn ei ardal:

- Y pecynnau o bapurau pleidleisio sydd ym meddiant y swyddog canlyniadau;
- Y cyfrifon papurau pleidleisio;
- Y datganiadau o bapurau pleidleisio a wrthodwyd;
- Y datganiad ynglŷn â chanlyniad y broses o ddilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio;
- Y pecynnau sy'n cynnwys y rhestr o bleidleiswyr drwy'r post a'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post drwy ddirprwy.

Pan fydd y swyddog canlyniadau hefyd yn gweithredu fel y swyddog canlyniadau cydgysylltu, bydd yn rhaid iddo hefyd anfon y dogfennau canlynol at swyddog cofrestru'r awdurdod lleol y cynhaliwyd yr etholiad yn ei ardal:

- Y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y swyddog llywyddu, ynghyd â datganiad o nifer y pleidleiswyr y marciwyd eu pleidleisiau o dan y penawdau "anabled" a "ddim yn gallu darllen";
- Y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anabledau;
- Y rhestr o bleidleiswyr ag anabledau a gynorthwywyd gan gymdeithion;
- Y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd;
- Y rhestrau o wallau a gywirwyd ar y gofrestr etholwyr ar y diwrnod pleidleisio;
- Y pecynnau sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau;
- Y pecynnau sy'n cynnwys tystysgrifau a ildiwyd gan y cwnstabiaid neu staff swyddogion canlyniadau;
- Y pecynnau sy'n cynnwys copiâu o'r cofnodion cofrestru a'r rhestrau dirprwyon.

Mae'r ddarpariaeth olaf yn Atodlen 2 yn ymwneud â dirymu neu roi'r gorau i bleidlais o ganlyniad i farwolaeth ymgeisydd. Os yw'r swyddog canlyniadau wedi'i fodloni, mewn etholiad a ymleddir (cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan), fod un o'r ymgeiswyr a enwyd ar y papur pleidleisio wedi marw, mae'n

rhaid i'r swyddog canlyniadau ddirymu'r hysbysiad o bleidlais, neu os yw'r bleidlais wedi dechrau, mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau roi cyfarwyddyd i roi'r gorau i'r bleidlais ac ni chaiff unrhyw bapurau pleidleisio eraill eu dosbarthu. Nid yw'r penderfyniad hwn i ddirymu neu roi'r gorau i'r bleidlais yn effeithio ar y bleidlais mewn unrhyw etholiad arall.

Ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio ym mhob etholiad perthnasol, mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu mewn unrhyw orsaf pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr etholiad gymryd y camau a nodir yn y Rheolau hyn ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio yn yr un modd ag y byddai pe na roddwyd y gorau i bleidlais y brif ardal. Fodd bynnag, nid oes angen i'r swyddog llywyddu baratoi cyfrif papurau pleidleisio.

Pan mai'r swyddog canlyniadau yw'r swyddog canlyniadau cydgysylltu, mae'n ofynnol iddo gymryd y camau sy'n angenrheidiol o dan Ran 4 o'r Rheolau hyn. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn, sef na chaiff y swyddog canlyniadau barhau i gyfrif unrhyw bapurau pleidleisio na phleidleisiau sy'n ymwneud â'r bleidlais y rhoddwyd y gorau iddi, ac nad oes angen dilysu unrhyw gyfrifon papurau pleidleisio sy'n ymwneud â'r bleidlais.

Os nad y swyddog canlyniadau yw'r swyddog canlyniadau cydgysylltu, mae'n rhaid iddo gael unrhyw bapurau pleidleisio neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r bleidlais y rhoddwyd y gorau iddi sydd wedi cael eu dosbarthu o bosibl gan, neu ar ran, y swyddog canlyniadau ond ni chaiff gymryd unrhyw gam a nodwyd yn Rhan 4 o'r Rheolau hyn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r bleidlais y rhoddwyd y gorau iddi.

### **Atodlen 3**

Mae Atodlen 3 yn nodi ar ba ffurf y mae'n rhaid i'r datganiad ynglŷn â threuliau etholiad mewn etholiad ar gyfer cynghorwyr cymuned gael ei gyflwyno.

## **5. Ymgynghori**

Mae adran 36A(7) o Ddeddf 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw wrth wneud y Rheolau hyn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos rhwng 2 Awst 2021 a 24 Medi 2021 ar y Rheolau drafft a'r Memorandwm Esboniadol ategol. Tynnwyd sylw amrywiaeth eang o arbenigwyr etholiadol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys swyddogion canlyniadau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Un Llais Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori rhithwir ar wahân gydag arbenigwyr etholiadol yn ogystal â chyfarfodydd pwrpasol gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r rhan fwyaf o'r cynigion yn yr ymgynghoriad. Nododd ymatebion fod angen rhoi ystyriaeth bellach i gynigion cynnar i gyflwyno

gofyniad i swyddogion canlyniadau gyhoeddi datganiadau a gyflwynwyd gan ymgeiswyr. Er bod cytundeb cyffredinol i'r cynigion, nododd ymatebion y dylid gwneud gwaith pellach mewn perthynas â rhoi'r polisi ar waith yn ymarferol. Tynnwyd y cynigion yn ôl hyd nes y gellir cwblhau gwaith pellach. Nid ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r Rheolau drafft.

Ymgynghorwyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol ag Erthygl 36 (4) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## **RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **6. Opsiynau**

Bydd y rhan fwyaf o'r Rheolau a'r prosesau cysylltiedig yn aros yr un fath â'r hyn a oedd yn gymwys mewn etholiadau lleol blaenorol, ac eithrio newidiadau penodol i ddarparu ar gyfer estyn yr etholfraint yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a newidiadau polisi yr ymgynghorwyd arnynt yn nogfen ymgynghori Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- newidiadau i ddarparu ar gyfer estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau lleol i bobl ifanc 16/17 oed a dinasyddion tramor cymwys;
- newidiadau sy'n caniatáu i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref;
- newidiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan unrhyw gysylltiadau â phlaid wleidyddol;
- darparu'r opsiwn i ymgeiswyr gyflwyno enwebiadau ar-lein;
- caniatáu i ymgeiswyr hunanenwebu.

**Opsiwn 1** – Busnes fel arfer. Y rheolau cyfredol sy'n llywodraethu etholiadau lleol, sef Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 ("Rheolau 2006") a Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 fyddai'n llywodraethu'r ffordd y caiff etholiadau lleol eu cynnal yng Nghymru.

**Opsiwn 2** – Gwneud Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

### **7. Dadansoddiad cost a budd**

#### **Opsiwn 1 – Busnes fel arfer**

Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, byddai'n golygu y byddai Rheolau cyfredol Cymru a Lloegr yn gymwys i etholiadau lleol. Nid ystyrir bod y Rheolau hyn yn addas at y diben mwyach gan fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor cymwys. Nid yw'r rheolau cyfredol yn darparu ar gyfer yr etholwyr newydd hyn.

Ymgynghorwyd ar y newidiadau ychwanegol sy'n cael eu gwneud i'r rheolau (y cyfeirir atynt uchod) yn 2017/2018 fel rhan o ymgynghoriad *Diwygio Etholiadol ym*

*maes Llywodraeth Leol yng Nghymru.* Cafodd llawer o'r newidiadau yr ymgynghorwyd arnynt eu rhoi ar waith yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r Rheolau hyn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol ar gyfer y newidiadau sy'n weddill. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddilyn, ni ellid cyflawni'r gwaith hwn o foderneiddio prosesau etholiadol ymhellach.

## **Opsiwn 2 – Gwneud Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021**

### **Disgrifiad**

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol benodi Swyddog Canlyniadau i gynnal etholiadau ar ei ran. Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Tref a Chymuned sy'n gyfrifol am dalu cost cynnal etholiadau lleol. Mae Adran 36C(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983) yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gostau yr eir iddynt gan swyddog canlyniadau mewn perthynas â chynnal etholiad ar gyfer ethol cynghorydd cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, i'r graddau nad yw hynny, lle mae'r cyngor ar gyfer yr ardal honno wedi pennu graddfa, yn mynd uwchlaw'r raddfa honno, gael eu talu gan y cyngor hwnnw.

Yn achos costau etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned, mae adran 36C(2) o Ddeddf 1983 yn pennu mai'r prif gyngor sy'n gyfrifol am dalu'r holl gostau yr eir iddynt yn briodol gan swyddog canlyniadau mewn perthynas â chynnal etholiad ar gyfer ethol cynghorydd cymuned, i'r graddau nad yw hynny, mewn achosion lle mae'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol lle mae'r gymuned wedi'i lleoli wedi pennu graddfa at y dibenion hyn, yn mynd uwchlaw'r raddfa honno; ac ar gais y prif gyngor, y dylai'r cyngor cymuned ad-dalu unrhyw wariant yr aed iddo at y dibenion hyn iddo.

Mae costau cynnal etholiad yn deillio o orfod talu amrywiaeth o ffioedd, taliadau a threuliau yr eir iddynt wrth dalu staff, costau argraffu hysbysiadau, papurau pleidleisio, ffurflenni pleidleisio drwy'r post ac ati, llogi gorsafoedd pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau. Nid yw'r Rheolau'n cynnig unrhyw newidiadau mewn perthynas â'r prosesau arferol ar gyfer cynnal yr etholiad. Rhoddwyd ystyriaeth i'r meysydd lle y bydd newid i brosesau, ac mae'r rhain wedi'u harchwilio isod.

### **Cost**

*Newidiadau i ddarparu ar gyfer estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau lleol i bobl ifanc 16/17 oed a dinasyddion tramor cymwys.*

Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y costau sy'n gysylltiedig ag estyn yr etholfraint i etholiadau lleol ac, yn benodol, cost etholwyr ychwanegol mewn etholiadau lleol i lywodraeth leol. Gweler isod. Cafodd y costau hyn eu hymgorffori wedyn yn y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r setliad llywodraeth leol ac maent wedi'u cynnwys yma er gwybodaeth yn unig.

Mae adroddiad 'The Cost of Electoral Administration in Great Britain' yn nodi mai'r gwariant etholiadol fesul etholwr yng Nghymru yn 2010-11 oedd £1.96. Mae hyn yn cynnwys costau cynnal yr etholiad a chyfrif y pleidleisiau. Nid oes ffigurau

diweddarach ar gael. At ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi diweddarau'r gost hon i £2.40 er mwyn ystyried chwyddiant.

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol 2019 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod 33,112 o bobl ifanc 16 oed yn byw yng Nghymru a 32,992 o bobl ifanc 17 oed. Mae'r ffigurau hyn yn amcangyfrif bod 34,075 o ddinasyddion tramor cymwys yn byw yng Nghymru na allant bleidleisio drwy etholfreiniau eraill ar hyn o bryd (e.e. heb gynnwys dinasyddion y Gymanwlad a'r UE).

*Tabl 1: Cost cynnydd yn nifer yr etholwyr llywodraeth leol, fesul etholiad, i lywodraeth leol*

<b>Cost pleidleiswyr ychwanegol</b>	<b>Amcangyfrifon poblogaeth (canol-2019)</b>	<b>Cost etholwr (£)</b>	<b>Cyfanswm (£)</b>
Cynnydd yn nifer yr etholwyr (pobl ifanc 16 a 17 oed) mewn etholiadau	66,104	2.40	158,650
Cynnydd yn nifer yr etholwyr (dinasyddion tramor) mewn etholiadau	34,075	2.40	81,780
<b>Cyfanswm</b>			<b>240,000</b>

#### *Newidiadau i'r broses enwebu*

Newidiadau i'r broses enwebu yw'r newidiadau eraill a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, ac maent yn cynnwys:

- Newidiadau sy'n caniatáu i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref
- Newidiadau i gyflwyno enwebiadau ar-lein
- Newidiadau sy'n caniatáu i ymgeiswyr hunanenwebu heb fod angen tanysgrifwyr
- Newidiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgan unrhyw gysylltiadau â phlaid wleidyddol yn ystod y 12 mis blaenorol (hyd at y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad etholiad).

Gallai'r holl newidiadau uchod olygu bod angen gwneud newidiadau i'r pecynnau enwebu a'r ffurflenni sydd ar gael i ymgeiswyr eu lawrlwytho oddi ar wefan y Comisiwn Etholiadol a'r awdurdod lleol. Er enghraifft, cynnwys ffurflen cyfeiriad cartref er mwyn galluogi ymgeiswyr i guddio eu cyfeiriad cartref o'r wybodaeth a gyhoeddir fel arall. Rhaid i'r ffurflenni hefyd fod ar gael i'w cwblhau a'u cyflwyno'n electronig, dileu'r gofyniad presennol i danysgrifwyr, a chynnwys lle i ddatgan cysylltiad â phlaid wleidyddol. Mae ffurflenni cyfeiriad cartref eisoes ar gael ar gyfer etholiadau eraill a dylai darparu ffurflen ychwanegol i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol fod yn niwtral o ran costau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y Comisiwn Etholiadol yn dymuno dylunio ffurflen enwebu dempled newydd



i'w defnyddio gan Swyddogion Canlyniadau Mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes wedi amcangyfrif costau ar gyfer diweddarau ffurflenni etholiadol tebyg sy'n gysylltiedig â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn nhabl 2.

*Tabl 2: Cost ailddylunio unrhyw ffurflenni (os oes angen) i'r Comisiwn Etholiadol*

<b>Cost</b>	<b>Amcangyfrifon poblogaeth (canol-2019)</b>
Dylunio ffurflen enwebu ddiwygiedig	£30,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£30,000</b>

Bydd y newid i'r rheolau i ganiatáu i ymgeiswyr hunanenwebu yn golygu na fydd angen i 10 etholwr lleol cofrestredig danysgrifio i ffurflenni enwebu ymgeiswyr mwyach. Mae'n rhaid i bob tanysgrifiwr pob un o'r ffurflenni enwebu (hyd at 350 fesul ardal awdurdod lleol ar gyfer etholiadau lleol) fod wedi'i gadarnhau'n etholwr lleol cofrestredig. Nod y rheol hunanenwebu newydd yw symleiddio'r broses a dileu rhwystrau i ddarpar ymgeiswyr. Mae dileu'r gofyniad am danysgrifwyr yn cynnig budd gweinyddol ychwanegol i weinyddwyr etholiadau.

Bydd y newid i'r rheolau i ganiatáu i ymgeiswyr hunanenwebu yn golygu na fydd angen i 10 etholwr lleol cofrestredig danysgrifio i ffurflenni enwebu ymgeiswyr mwyach. Mae'n rhaid i bob tanysgrifiwr pob un o'r ffurflenni enwebu fod wedi'i gadarnhau'n etholwr lleol cofrestredig. Nod y rheol hunanenwebu newydd yw symleiddio'r broses a dileu rhwystrau i ddarpar ymgeiswyr. Fodd bynnag, mae dileu'r gofyniad am danysgrifwyr yn cynnig budd gweinyddol ychwanegol i weinyddwyr etholiadau, fel y nodir yn nhabl 3 isod. Mae gwaith ymgysylltu ag arbenigwyr etholiadol yn awgrymu y gall y ffaith nad oes angen cadarnhau manylion tanysgrifwyr i ffurflen enwebu pob ymgeisydd arbed hyd at 15 munud o amser gweinyddol fesul ymgeisydd. Mae gweinyddwyr etholiadau wedi nodi y gellid gweld hyd at 300 o ymgeiswyr mewn ardaloedd mawr, gan arbed cyfanswm ceidwadol o 75 awr. Mae arbed amser gweinyddol yn arwain at arbedion ariannol i'r awdurdod lleol:

*Tabl 3: Arbedion i awdurdodau lleol a nodwyd mewn perthynas â newidiadau i ganiatáu hunanenwebu*

<b>Cost</b>	<b>Fesul awdurdod lleol</b>	<b>Cymru gyfan</b>
Arbedion ariannol sy'n deillio o arbed tua 75 awr o amser gweinyddol (£16 yr awr).	£1,200	
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,200</b>	<b>£26,400</b>

## Buddiannau

Cwblhawyd yr estyniad i'r etholfraint ar gyfer etholiadau lleol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r estyniad ar waith yn llawn, mae'n rhaid ail-lunio'r rheolau sy'n llywodraethu'r etholiadau er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Mae hyn yn galluogi mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, gan sicrhau llywodraeth leol sy'n fwy ymatebol i'r cymunedau amrywiol a wasanaethir ganddi ac sy'n annog cydberthynas barhaus â democratiaeth yn yr hirdymor, gan arwain at fwy o bleidleiswyr mewn etholiadau yn y dyfodol a mwy o bobl o gefndiroedd ehangach yn dangos diddordeb mewn sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau lleol.

O ran yr opsiwn i ganiatáu ymgeiswyr i gyflwyno papurau enwebu yn electronig, ymhlith y buddiannau mae cynyddu hygyrchedd drwy ddileu'r angen i gyflwyno papurau enwebu â llaw, a all olygu bod yn rhaid teithio cryn bellter mewn rhai ardaloedd.

Mae dileu'r gofyniad i ymgeiswyr gyhoeddi eu cyfeiriad cartref yn bwysig o ran annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiad. Mae'r ddarpariaeth yn helpu i ddileu'r risg o sylw negyddol a chamdriniol o bosibl yng nghyfeiriad cartref yr ymgeiswyr. Mae'r newid hwn eisoes wedi'i roi ar waith ar gyfer etholiadau eraill.

### **Yr Opsiwn a Ffefrir**

Byddai Opsiwn 2 yn cynnig amrywiaeth eang o fuddiannau fel y nodir uchod ac ystyrir ei fod yn hanfodol er mwyn rhoi'r newid i'r etholfraint ar waith a chyflwyno gwelliannau i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau lleol.

#### *Effeithiau eraill*

Cynhaliwyd Aseiad Effaith Integredig llawn o effaith y darpariaethau newydd a gyflwynwyd yn y rheolau. Mae'r aseiad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).

### **8. Asesu'r Gystadleuaeth**

Ni fydd y darpariaethau yn y rheolau yn effeithio ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n peri problemau o ran y gystadleuaeth. Nid yw'r hidl cystadleuaeth wedi'i gymhwyso. Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y rheolau gael unrhyw effaith ar y gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na rhai presennol. Disgwylir mai ar gyrff cyhoeddus y bydd y mwyafrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth yn disgyn, sydd eisoes yn talu'r costau hyn. Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fentrau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.